

Rhif: WG 32167



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Diwygio Etholiadol ym maes Llywodraeth Leol
yng Nghymru

Ebrill 2018

Cynnwys

1. Cyflwyniad.....	3
2. Methodoleg.....	4
3. Trosolwg o Ymatebion.....	5
4. Dadansoddiad o Ymatebion i'r Cwestiynau Ymgynghori.....	7
1. Adeiladu'r Etholfraint	7
3. Y system bleidleisio.....	19
4. Y broses bleidleisio	23
5. Sefyll mewn etholiad	39
6. Swyddogion Canlyniadau.....	46
7. Pleidlais i Garcharorion	49
5. Y Camau Nesaf	56
6. Rhestr o'r Ymatebwyr.....	57
Atodiad 1 – Datganiad Ysgrifennydd y Cabinet ar Ddiwygio Etholiadol	62

1. Cyflwyniad

- 1.1 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y ddogfen ymgynghori, Diwygio Etholiadol ym maes Llywodraeth Leol yng Nghymru ar 18 Gorffennaf 2017. Fe barodd y cyfnod ymgynghori am ddeuddeg wythnos tan 10 Hydref 2017.
- 1.2 Roedd yr ymgynghoriad yn dilyn y Papur Gwyn, Diwygio Llywodraeth Leol: Cadernid ac Adnewyddiad a gyhoeddwyd ar 31 Ionawr 2017, ac yn ceisio barn pobl am gynigion i wella ymgysylltiad pobl â democratiaeth, sut y maent yn dod yn gymwys i bleidleisio, sut y maent yn arfer yr hawl i bleidleisio a sut y gellir trefnu etholiadau'n well.
- 1.3 Mae'r ddogfen hon yn nodi crynodeb o'r ymatebion i'r ymarfer ymgynghori yn Adran 4¹.

¹ Lle mae'r ffigurau a geir yn adran 4 yn dod i gyfanswm o fwy neu lai na 100%, mae hyn oherwydd talgrynnu.

2. Methodoleg

2.1. Yn ogystal â'r brif ddogfen ymgynghori, fe wnaeth Llywodraeth Cymru hefyd baratoi fersiwn o'r papur ymgynghori ar gyfer Pobl Ifanc, fersiwn Hawdd ei Ddeall a fersiwn yn laith Arwyddion Prydain. Roedd y rhain ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru. Roedd y fersiwn ar gyfer Pobl Ifanc a'r fersiwn Hawdd ei Ddeall yn fersiynau wedi'u crynhoi er mwyn gweddu i'r gynulleidfa darged ar gyfer y fersiynau hygyrch hyn.

2.2. Hefyd, fe gynhaliodd deiliad blaenorol swydd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol weithdai bord gron gyda Chomisiynydd Plant Cymru a'i chynrychiolwyr ifainc, y naill yng Ngogledd Cymru a'r llall yn Ne Cymru.

2.3. Roedd y brif ddogfen ymgynghori'n gofyn 43 o gwestiynau am ddiwygio etholiadol. Roedd yn cynnwys tri chwestiwn pellach a oedd yn gofyn am farn pobl ynglŷn ag unrhyw faterion cysylltiedig o ran y Gymraeg neu bryderon cysylltiedig eraill nad oedd y papur ymgynghori'n mynd i'r afael â hwy yn benodol. Yn sgîl gwall technegol cafodd y rhain eu hepgor o'r ffurflen ymateb ar-lein ond roeddent ar gael i'w gweld yn y brif ddogfen ymgynghori ar ffurf PDF.

2.4 Mae crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiynau yn y fersiwn ar gyfer Pobl Ifanc a'r fersiwn Hawdd ei Ddeall wedi cael ei ymgorffori yn y dadansoddiad o'r ymatebion i'r prif bapur ymgynghori a chyfeiriwyd ato lle yr oedd angen neu lle mae barn ymatebwyr i'r ymgynghoriad hwn yn arbennig o wahanol i farn ymatebwyr i'r prif ymgynghoriad.

3. Trosolwg o Ymatebion

- 3.1 Cafwyd 979 o ymatebion ar y cyfan oddi wrth sefydliadau a nifer fawr o aelodau o'r cyhoedd.
- 3.2 Roedd nifer yr ymatebwyr i'r ddogfen yn ôl math ac yn ôl y fersiwn o'r ddogfen ymgynghori fel a nodir isod:

Fersiwn Lawn

Nifer yr Ymatebwyr	775	100%
Aelod o'r cyhoedd	648	84
Cyngor Sir neu Fwrdeistref Sirol	19	3
Cyngor Tref neu Gymuned	20	3
Grŵp Gwleidyddol / Plaid Wleidyddol	29	4
Corff cynrychiolaidd, Corff Proffesiynol neu Gymdeithas Broffesiynol	25	3
Aelod etholedig	18	2
Y trydydd sector	10	1
Undeb llafur	2	0
Un o asiantaethau'r llywodraeth / corff arall yn y sector cyhoeddus	2	0
Arall	1	0

Fersiwn Hawdd Ei Ddeall

Nifer yr ymatebwyr	5	100%
Aelod o'r cyhoedd	4	80
Cyngor Sir neu Fwrdeistref Sirol	0	0
Cyngor Tref neu Gymuned	0	0
Grŵp Gwleidyddol / Plaid Wleidyddol	0	0
Corff cynrychiolaidd, Corff Proffesiynol neu Gymdeithas Broffesiynol	0	0
Aelod etholedig	0	0
Y trydydd sector	1	20
Undeb llafur	0	0
Un o asiantaethau'r llywodraeth / corff arall yn y sector cyhoeddus	0	0
Arall	0	0

Fersiwn ar gyfer Pobl Ifanc

Nifer yr ymatebwyr	199	100%
Aelod o'r cyhoedd	5	3
Cyngor Sir neu Fwrdeistref Sirol	2	1
Cyngor Tref neu Gymuned	0	0
Grŵp Gwleidyddol / Plaid Wleidyddol	0	0
Corff cynrychiolaidd, Corff Proffesiynol neu Gymdeithas Broffesiynol	0	0
Aelod etholedig	0	0
Y trydydd sector	0	0
Undeb llafur	0	0
Un o asiantaethau'r llywodraeth / corff arall yn y sector cyhoeddus	0	0
Arall	194	97

Iaith Arwyddion Prydain

- 3.3. Nid oedd unrhyw ymatebwyr i'r fersiwn o'r ymgynghoriad yn iaith Arwyddion Prydain.
- 3.4. Mae rhestr o'r ymatebwyr wedi'i chynnwys yn Adran 6. Mae'r holl rai a ymatebodd i'r fersiwn o'r ymgynghoriad a oedd ar gyfer pobl ifanc wedi cael eu nodi fel ymatebwyr dienw, a dewisodd nifer o ymatebwyr i'r fersiynau eraill o'r ymgynghoriad aros yn ddiennw ac mae'r rhain wedi cael eu hepgor o'r rhestr honno.

4. Dadansoddiad o Ymatebion i'r Cwestiynau Ymgynghori


1. Adeiladu'r Etholfraint

Pleidleisiau i bobl ifanc 16 a 17 oed

C1. A ydych yn cytuno y dylai'r oed i gael hawl i bleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru gael ei ostwng i 16?

Fersiwn Hawdd ei Ddeall C1. Ydych chi'n cytuno y dylai oed pleidleisio mewn etholiadau lleol fod yn 16?

Fersiwn Addas ar gyfer Pobl Ifanc C1. Ydych chi'n meddwl y dylen ni ostwng yr oedran pleidleisio ar gyfer etholiadau Cymru?



Roedd cefnogaeth gref i'r cynnig i ostwng yr oedran isaf ar gyfer pleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol i 16. Roedd mwy na dwy ran o dair o'r ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig. Roedd hyn yn gyson fwy neu lai ar draws pob categori o ymatebwyr, er ei fod ychydig yn uwch, sef 72%, yn y 182 o ymatebion a gyflwynwyd mewn ymateb i'r fersiwn ar gyfer pobl ifanc.

Daeth sawl barn gyffredin i'r amlwg. Ymhlith y rhai a oedd yn cefnogi'r cynnig un thema oedd ei fod yn "gwneud synnwyr" yng nghyd-destun dyletswyddau eraill sy'n ddibynnol ar oed, megis talu treth, a'r ystod o hawliau sydd gan bobl ifanc yn barod. Roedd rhai'n ystyried ei fod yn estyniad ar gydnabod hawliau pobl ifanc sydd i'w groesawu ac sy'n naturiol.

Roedd llawer yn cytuno y byddai gostwng yr oedran pleidleisio'n cynyddu cyfranogiad pobl ifanc yn y broses ddemocrataidd ac mewn penderfyniadau ynglŷn â materion sy'n effeithio arnynt. Roedd rhai hefyd yn ei groesawu fel cam tuag at bleidleisiau i bobl ifanc 16-18 oed ym *mhob* etholiad ac un a fyddai'n adeiladu ar brofiadau yn yr Alban, sy'n gadarnhaol yn eu tyb hwy.

Un thema gyffredin rhwng y rhai a oedd yn cytuno ac yn anghytuno oedd parodrwydd pobl ifanc i gyfranogi. Roedd rhai'n ystyried bod gostwng yr oedran i fod yn gymwys i bleidleisio'n gyson â datblygiadau yn y cwricwlwm ysgolion a fyddai'n gwella

dealltwriaeth pobl ifanc. Roedd llawer o ymatebion gan y rhai a oedd yn anghytuno â'r cynnig yn mynegi'r farn bob pobl ifanc yn amlwg heb ddigon o aeddfedrwydd a/neu brofiad i ddeall ac ymgysylltu â natur gymhleth gwleidyddiaeth. Roedd rhai o'r farn y byddai angen yn gyntaf i ysgolion roi mwy o sylw i wleidyddiaeth gyda phobl ifanc ac i bobl ifanc fod wedi'u haddysgu'n well am faterion sy'n ymwneud â democratiaeth.


Roedd rhai o'r farn y gellid ystyried bod gostwng yr oedran pleidleisio'n gyfystyr â thrin 'plant' fel oedolion cyn eu bod yn barod. Amheuaeth arall oedd nad oedd tystiolaeth i ategu'r ddadl dros ostwng oedran pleidleisio. Roedd nifer fach o'r farn nad oedd gwersi o brofiad yr Alban wedi cael eu hystyried eto.

Dinasyddion yr UE a dinasyddion gwledydd eraill

C2. A ddylai dinasyddion yr UE sy'n symud i Gymru ar ôl i'r DU adael yr UE barhau i gael yr hawl i bleidleisio?

Fersiwn Hawdd ei Deall C2. A oes arnoch chi eisiau i bobl o'r UE, fydd yn dod yma ar ôl i ni adael yr UE, gael pleidleisio?

Fersiwn ar gyfer Pobl Ifanc C2. Ydych chi'n meddwl y dylai dinasyddion yr UE sy'n symud i Gymru ar ôl inni adael yr UE gael pleidleisio yn ein hetholiadau ni?




Eto, roedd cefnogaeth gref i'r cynnig hwn, gyda thri chwarter yr ymatebwyr i'r brif ddogfen ymgynghori'n dweud eu bod yn cytuno. Yn yr un modd gwelwyd cefnogaeth gref hefyd mewn ymateb i'r ddogfen ar gyfer pobl ifanc a'r ddogfen hawdd ei deall. Eto, roedd cefnogaeth gref ar draws y categorïau o ymatebwyr.

Mynegodd nifer o ymatebwyr y farn y byddai'n anodd mabwysiadu safbwynt pendant nes bod canlyniad y trafodaethau ynglŷn â Brexit yn dod yn gliriach. O ymatebion mwy pendant, roedd rhywfaint o dir cyffredin rhwng y rhai a oedd yn cytuno ac yn anghytuno â'r cynnig. Roedd hwn yn tueddu i fod yn amlwg yn y farn y dylai pleidleisio fod yn amodol naill ai ar ddinasyddiaeth neu gyfnod preswyllo cyn bod rhywun yn gymwys. Roedd y farn yn hyn o beth yn amrywio o gredu mai dim ond dinasyddion y DU ddylai fod â hawl i bleidleisio, i gredu y dylai pobl fod yn breswylwyr llawn yn y DU neu fod wedi bwrw cyfnod preswyllo gofynnol cyn cael yr hawl i bleidleisio. Roedd nifer o bobl ar ddwy ochr y ddadl yn ystyried na ddylai fod trethiant heb gynrychiolaeth neu i'r gwrthwyneb: mae "ni ddylai'r rhai nad ydynt yn talu trethi fod â'r hawl i bleidleisio" a "dylai'r rhai sy'n talu trethi fod â'r hawl i bleidleisio dros y bobl sy'n penderfynu sut y gellir gwario'r trethi hynny" yn enghreifftiau o'r sylwadau.

C3. A ddylai hawliau pleidleisio gael eu hestyn i'r holl drigolion cyfreithlon yng Nghymru, heb ystyried eu cenedligrwydd na'u dinasyddiaeth?

Fersiwn Hawdd ei Ddeall C3. A oes arnoch chi eisiau i bawb sy'n byw yng Nghymru fedru pleidleisio ble bynnag y cawson nhw eu geni?


Fersiwn ar gyfer Pobl Ifanc C3. A ddylai pawb sy'n byw yma'n gyfreithlon gael pleidleisio?



Roedd cytundeb ac anghytundeb yn dilyn patrymau a oedd yr un fath fwy neu lai â'r rhai a fynegwyd ar gyfer cwestiwn 2. Felly yr oedd hi ar draws mathau o gategorïau hefyd, er bod ymatebion cynghorau tref a chymuned wedi'u rhannu'n fwy cyfartal o lawer, gyda 56% yn cytuno, o'i gymharu â 44% a oedd yn anghytuno.

Mynegwyd teimladau tebyg, gyda llawer o sylwadau'n canolbwyntio ar hyd arhosiad pleidleiswyr. Er enghraifft, a ddylai myfyrwyr sy'n gadael Cymru unwaith y mae eu hastudiaethau wedi dod i ben fod yn gymwys i bleidleisio, a/neu a ddylai fod yn wir bod "gan unrhyw un sy'n byw mewn cymuned benodol fuddiant yn y modd y caiff ei llywodraethu ni waeth o ble maent yn hanu" a bod "preswlydd yn breswlydd ni waeth beth fo'i genedligrwydd"?

C4. Caiff dinasyddion yr UE a'r Gymanwlad sefyll i gael eu hethol i lywodraeth leol yng Nghymru. A ddylai hyn barhau a chael ei estyn i bob cenedl sy'n dod yn gymwys i bleidleisio?




Pan fo'n cael ei ystyried ochr yn ochr â'r cwestiwn blaenorol, fel y gellid disgwyl, roedd patrymau tebyg fwy neu lai o ran cytundeb ac anghytundeb a sylwadau cysylltiedig ynghylch y mater hwn. Roedd y farn gyffredin am yr hawl i sefyll mewn etholiad yn aml yn gysylltiedig â dinasyddiaeth, statws cyflogaeth (h.y. a oedd ymgeisydd o'r UE/o'r Gymanwlad mewn swydd) ac am faint o amser yr oedd ymgeisydd wedi bod yn preswyllo yng Nghymru a pha un a oedd yn preswyllo yma'n barhaol ai peidio.

2. Gwella'r trefniadau cofrestru

Rhannu Data a Chofrestru Awtomatig

C5. A ddylai swyddogion cofrestru etholiadol fod â mwy o ddewis o ffynonellau ar gael iddynt i helpu dinasyddion i gael eu hychwanegu i'r gofrestr?

Fersiwn ar gyfer Pobl Ifanc C4. Ydych chi'n meddwl y dylai'r Swyddogion Cofrestru Etholiadol gael mwy o ffyrdd i'w helpu nhw i ychwanegu pobl at y gofrestr?



Roedd 77% o'r ymatebwyr i'r brif ddogfen yn cytuno â'r cynnig hwn ac roedd cefnogaeth fwyafrifol ar draws y categorïau o ymatebwyr.


Roedd llawer o'r rhai a oedd yn cytuno'n meddwl y dylai fod gan Swyddogion Cofrestru Etholiadol fynediad yn y dyfodol at ystod o ffynonellau data eraill gan gynnwys, er enghraifft, cofrestriad yswiriant gwladol, manylion trwydded yrru, a gwybodaeth pasbort. Gwnaed y sylw bod Swyddogion Cofrestru Etholiadol eisoes yn gallu defnyddio gwybodaeth sy'n ymwneud â'r dreth gyngor a budd-dal tai. Gyda'i gilydd, gellid defnyddio'r ffynonellau hyn i helpu i hybu'r nifer sydd ar y gofrestr etholiadol. Roedd manteision cynyddu'r gronfa ddata etholiadol ym marn ymatebwyr yn cynnwys democratiaeth sy'n gweithredu'n fwy llawn, a gostyngiadau i'r baich costau a gyflawnir trwy fanteisio'n well ar gyfleoedd electronig i gysylltu â phleidleiswyr.

Roedd dadleuon nodweddiadol gan y rhai nad oeddent o blaid yn cynnwys sylwadau am dramgwyddo ar hawliau unigolion i breifatrwydd. Roeddent yn dadlau y dylai fod yn fater o ddewis personol a oedd unigolyn yn dymuno bod ar y gofrestr ai peidio. Os nad oedd unigolyn yn gwybod sut i ychwanegu ei hun at y gofrestr ac os nad oedd digon o ddiddordeb gan unigolyn mewn gwneud hynny yna, yn ôl rhai, efallai nad oedd yn 'ffit' i bleidleisio.

Barn groes i hynny oedd bod "rhaid bod unrhyw beth sy'n annog pobl i bleidleisio ac felly'n cynyddu nifer y pleidleiswyr...o fudd i Gymru. Apathi fu'r broblem, a hynny am yn rhy hir."

C6. Yn eich barn chi, pa ffynonellau data y dylai swyddogion cofrestru etholiadol eu defnyddio?

Fersiwn Hawdd ei Ddeall C4. A oes arnoch chi eisiau i swyddfeydd fel budd-daliadau roi eich enw i ni ar gyfer y gofrestr bleidleisio?



O'r 356 o ymatebion i'r cyntaf o 11 cwestiwn agored, roedd 93% o'r farn y dylai unrhyw ffynonellau data ddeillio naill ai o ddata'r Llywodraeth neu ddata a ddelir yn y sector cyhoeddus. Yr ymatebion mwyaf amlwg oedd y rhai a oedd yn awgrymu defnyddio data a ddelir yng nghofnodion asiantaethau Llywodraeth y DU, gwybodaeth sydd gan lywodraeth leol a/neu drwy'r Adran Gwaith a Phensiynau, Cyllid a Thollau EM a chofnodion yswiriant gwladol. Gyda'i gilydd, roedd yr ymatebion hyn yn rhoi cyfrif am 57% o'r cyfanswm.

Roedd 12% o blaid cadw'r system bresennol. Roedd 8% arall yn cefnogi'r syniad o gael mynediad at ddata a ddelir gan y GIG. Roedd niferoedd tebyg o blaid defnyddio gwybodaeth a ddelir yng nghofnodion y sector preifat neu brifysgolion.

Roedd y rhai a oedd yn cefnogi defnyddio data a ddelir gan y Llywodraeth neu asiantaethau'r Llywodraeth yn aml yn cyfeirio at y gofrestr etholiadol, gwybodaeth am y dreth gyngor, cofnodion a ddelir gan Gyllid a Thollau EM neu Awdurdod Refeniw Cymru, neu wybodaeth a ddefnyddir gan yr Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau neu'r Adran Gwaith a Phensiynau. Ceir cyfeiriadau penodol yn yr ymatebion at beidio â defnyddio gwybodaeth o ffynonellau data preifat.

Roedd un cyfraniad gan y Gymdeithas Diwygio Etholiadol yn nodi fel a ganlyn, "byddem ni'n awgrymu bod data'r GIG, gwybodaeth sy'n gysylltiedig â phasbortau, cofrestrïadau prifysgolion, ceisiadau i'r Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau, cyfleustodau cyhoeddus, gwybodaeth gan ysgolion (am gyflawnwyr) a gwybodaeth o fewn y gyfundrefn lles yn ddefnyddiol." Roeddent yn mynd ymlaen i ddweud, "Er bod diogelu data'n amlwg yn fater sy'n achosi pryder rydym ni o'r farn y gellid sefydlu mecanweithiau priodol i sicrhau bod data'n cael ei rannu mewn modd sy'n cydymffurfio â chyfyngiadau."


Roedd sylw pellach yn cefnogi datblygu gwefan swyddogol lle gallai pleidleiswyr wirio a oeddent a ble'r oeddent wedi'u cofrestru.

Un ystyriaeth ymarferol a fynegwyd oedd y gallai defnyddio mwy a mwy o ffynonellau data arwain at wallau ac o bosibl at ddyblygu.

Galluogi ystod ehangach o Swyddogion Cyngor i helpu pobl i gofrestru

C7. A ddylai ystod ehangach o staff awdurdodau lleol gael yr hawl i helpu dinasyddion i gofrestru drwy gael mynediad i'r gofrestr llywodraeth leol a bod â'r gallu i'w diwygio?

Fersiwn ar gyfer Pobl Ifanc C5. Ydych chi'n meddwl y dylai staff awdurdodau lleol allu helpu pobl i gofrestru?




Fe esgorodd y cwestiwn hwn ar ystod o ymatebion. Ar yr wyneb, roedd 68% o'r ymatebwyr i'r brif ddogfen ymgynghori'n cytuno â'r cwestiwn. Roedd y ffigur hwn yn codi i 85% ar gyfer y rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad ar gyfer pobl ifanc. Fodd bynnag, roedd yn llawer mwy cytbwys pan oedd barn cynghorau sir a bwrdeistref sirol, yn arbennig, yn cael eu cymryd i ystyriaeth. Yma, dywedodd nifer is (58%) eu bod yn cytuno.

Roedd y rhai a oedd yn gefnogol yn ystyried bod manteision o ran y byddai'r cynnig yn cynyddu maint y gofrestr etholiadol ac yn cynorthwyo'r rhai a allai fel arall gael eu hatal neu eu rhwystro rhag cofrestru trwy ddulliau mwy 'traddodiadol'. Rydym ni'n nodi bod llawer o'r sylwadau gan y rhai a ddynododd eu bod yn cytuno hefyd yn mynegi pryderon ac amheuan. Roedd rhai o'r rhain yn gyffredin i'r rhai a fynegwyd gan ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cynnig. Mewn nifer o sylwadau roedd pryder y byddai caniatáu i ormod o bobl olygu'r gofrestr etholiadol neu gael mynediad ati adael y system yn agored i dwyll a/neu effeithio ar ei chyfanrwydd.

Pe bai ystod newydd o swyddogion cynghorau'n dod yn gyfrifol am gofrestru, mynegwyd barn y byddai angen lefel uchel o hyfforddiant. Fodd bynnag, roedd nifer o ymatebwyr o'r farn y dylai'r cyfrifoldeb aros gyda'r Swyddog Cofrestru Etholiadol a'i dîm arbenigol (y byddai gofyn cynyddu eu hadnoddau o bosibl i gyflawni dyletswyddau newydd neu fodloni disgwyliadau newydd).

C8. Pa fesurau rheoli y dylid eu defnyddio i sicrhau bod y swyddog cofrestru etholiadol yn cadw'r rheolaeth gyffredinol dros y gofrestr?



Fe esgorodd yr ail gwestiwn agored hwn ar nifer is (229) o ymatebion. Fe allai hynny fod yn gysylltiedig â lefelau'r ymwybyddiaeth gyffredinol o rôl Swyddogion Cofrestru Etholiadol a lefelau presennol y rheolaeth ar y gofrestr etholiadol.

O'r ymatebion, roedd ychydig yn llai na 50% o blaid cadw'r system bresennol, a hwythau'n aml o'r farn y dylai rheolaeth lwyr ar y gofrestr, a goruchwyliaeth ar y modd y caiff ei defnyddio, aros gyda'r Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u timau. Roedd nifer o'r farn y dylai unrhyw newidiadau arfaethedig i'r gofrestr fod yn rhai dros dro nes eu bod wedi cael eu cymeradwyo gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol. O bosibl, gallai partïon eraill gynghori ynghylch manylion yr awgrymir eu hychwanegu at, neu eu dileu oddi ar, y gofrestr, ond eto, awgrymiadau yn unig ddylai'r rhain fod a'r Swyddog Cofrestru Etholiadol ddylai benderfynu a fyddant yn cael eu gweithredu ai peidio.


Roedd cefnogaeth sylweddol i sicrhau cywirdeb a dibynadwyedd cofrestrau a'r defnydd ohonynt ledled Cymru, gydag 17% o'r ymatebwyr yn nodi eu bod yn meddwl y dylent gael eu hadolygu'n rheolaidd, mewn modd cadarn. Yn gysylltiedig â hyn roedd rhai galwadau hefyd y dylai swydd – Ombwdsmon o bosibl – neu gorff newydd a sefydlir, oruchwyllo gwaith Swyddogion Cofrestru Etholiadol.

Llacio'r rheolau ar gofrestru unigolion

C9. A ddylai rheolau cofrestru unigolion gael eu llacio i ganiatáu ar gyfer cofrestrïadau bloc mewn amgylchiadau penodol, gan ddiogelu hawliau

pleidleisio poblogaethau a fyddai fel arall mewn perygl o gael eu heithrio?

Fersiwn Hawdd ei Ddeall C5. A oes arnoch chi eisiau i bawb mewn tŷ gofrestru ar yr un ffurflen?



Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn, er eu bod weithiau'n cynnwys barn gref iawn, yn gyfartal iawn, gyda lleiafrif bach (51%) yn anghytuno â'r cynnig. Roedd cyfran uwch o ymatebwyr i'r fersiwn Hawdd ei Ddeall yn cytuno â'r cynnig hwn gydag 83% yn cytuno ac 17% yn anghytuno.

Roedd nifer o themâu'n amlwg yn yr ymatebion, yr oedd rhai ohonynt yn gyffredin rhwng y rhai a oedd yn cytuno ac yn anghytuno â'r cynnig. Roedd y sylw mynychaf ymhlith y rhain yn ymwneud â phryder ynghylch cyfanrwydd y system gofrestru. Yn arbennig, roedd pryder y gallai cofrestriadau bloc arwain, neu y byddent yn arwain, at dwyll neu gamddefnyddio'r system. Yn gysylltiedig â hyn roedd posibilrwydd y gallai'r cynnig olygu bod arferion cymhellol a/neu gofrestriadau bloc yn arwain at bleidleisiau bloc – gyda grwpiau neu, o bosibl, pennau teuluoedd yn arfer gormod o reolaeth. Roedd barn glir a chyffredin, pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, y byddai angen sefydlu mesurau diogelu cryf er mwyn sicrhau nad oedd dylanwad ar bleidleisiau a phleidleiswyr. Hefyd, dywedodd rhai y dylai'r amgylchiadau pan ddylai cofrestriadau bloc fod yn gymwys gael eu gwneud yn glir. Roedd nifer fach o ymatebwyr yn pryderu y gallai gwybodaeth bersonol gael ei pheryglu neu ei chamddefnyddio.


Ar nodyn technegol, mynegodd ymatebwyr ar ddwy ochr y ddadl farn y byddai angen cymryd gofal i osgoi dyblygu cofrestriadau. Un farn a fynegwyd dro ar ôl tro oedd bod cofrestru a phleidleisio'n faterion o gyfrifoldeb unigol. Roedd rhai o'r farn bod gan unigolion yr hawl i ddewis cyfranogi neu beidio oni bai a nes bod pleidleisio'n orfodol.

Fe wnaeth y rhai a oedd yn cytuno â'r cynnig nodi manteision posibl, sef gwella cyfranogiad yn y broses ddemocrataidd ar draws nifer o grwpiau. Y grwpiau y cyfeiriwyd atynt fwyaf oedd myfyrwyr (gan gynnwys y rhai mewn prifysgol, addysg ôl-16 a sefydliadau addysg bellach) a phobl oeddrannus a/neu agored i niwed. Roedd hyn yn cynnwys y rhai mewn lleoliadau gofal hirdymor, ysbytai a hosbisau, ond hefyd fe wnaed sawl cyfeiriad at bobl ddigartref. Mynegwyd peth cefnogaeth i gofrestriadau bloc o garchardai.

Un farn a oedd yn gyffredin rhwng y rhai a oedd yn cytuno ac yn anghytuno â'r cwestiwn oedd y farn bod angen mwy o ymwybyddiaeth ac addysg i gynyddu cyfranogiad.

Ymgyrchoedd cofrestru wedi'u targedu

C10. A ddylem roi dyletswydd ar swyddogion cofrestru etholiadol i ystyried a ddylai unrhyw grwpiau unigol yn eu hardal etholiadol gael eu targedu'n benodol mewn ymgyrchoedd cofrestru?




Roedd 60% o'r ymatebwyr yn cytuno, gyda chytundeb gan y mwyafrif ym mhob categori o ymatebwyr ac, yn fwyaf nodedig, mewn ymatebion gan gynghorau tref a chymuned, grwpiau gwleidyddol, cyrff cynrychiolaidd, aelodau etholedig, asiantaethau trydydd parti ac asiantaethau'r Llywodraeth.

Roedd cydnabyddiaeth bod gofyniad ar gyfer Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn barod, a ddisgrifiwyd fel gorfod, "... cymryd yr holl gamau angenrheidiol i gydymffurfio â'u dyletswydd i gynnal y gofrestr etholiadol, ac i sicrhau, hyd y bo'n rhesymol ymarferol, bod pawb sy'n gymwys (a neb arall) wedi'u cofrestru." Nodwyd hefyd fod yn rhaid i Swyddogion Cofrestru Etholiadol fod â strategaethau ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd yn lleol.

Y grwpiau penodol a enwyd fwyaf gan ymatebwyr fel grwpiau targed priodol ar gyfer ymgyrchoedd cofrestru oedd: pobl ifanc, yr henoed, lleiafrifoedd ethnig, pobl ag anableddau a phobl sydd wedi'u hynysu'n gymdeithasol. Roedd nifer y ymatebion yn gwneud y sylw gall fod ar rai pobl yn y grwpiau hyn angen cymorth ychwanegol i gofrestru. Gwnaeth nifer lai y sylw ei bod yn bwysig trefnu bod arian ar gael i redeg ymgyrchoedd cofrestru.

Un farn gyffredin ymhlith y rhai nad oeddent yn gefnogol i dargedu grwpiau mewn ymgyrchoedd cofrestru oedd y dylid codi ymwybyddiaeth ar draws yr *holl grwpiau* ac nid dim ond ymhlith grwpiau targed penodol. Roedd rhai o'r farn y gallai tuedd wirioneddol neu ganfyddedig yn erbyn neu o blaid grwpiau penodol fod yn broblemus, neu'n fecanwaith i gamystumio pleidleisiau. Mynegodd eraill farn, a oedd yn cael ei hadleisio mewn manau eraill yn yr ymgynghoriad, mai cyfrifoldeb unigolion oedd cofrestru a bod rhai'n dewis peidio ag arfer y ddyletswydd am amrywiaeth o resymau. I'r un perwyl, roedd rhai o'r farn y byddai defnyddio'r adnoddau a fyddai'n angenrheidiol i gynnal ymgyrchoedd cofrestru'n amhriodol neu'n wastraffus. Awgrymodd nifer fach y byddai'n well mynd ati yn lle hynny i hyrwyddo cyfrifoldeb dinasyddion neu i wneud cofrestru'n ofyniad cyfreithiol; fodd bynnag, mae eisoes yn ofyniad statudol bod pobl yn cofrestru i bleidleisio pan ydynt yn cael gwahoddiad i wneud gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol, a gall y rhai nad ydynt yn ymateb i'r gwahoddiad hwnnw gael dirwy.

C11. A ddylem gyflwyno trefniadau sy'n golygu bod gan asiantaethau sy'n ymwybodol o bobl yn symud ddyletswydd i roi gwybod i'r swyddogion cofrestru etholiadol?



Roedd 73% o'r 644 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn yn cytuno fwy neu lai, er bod prif amheuon, ar draws yr holl sylwadau, wedi cael eu mynegi mewn perthynas â'r math o asiantaethau a allai fod yn rhan o hyn.

Eto, roedd llawer yn cydnabod bod gan Swyddogion Cofrestru Etholiadol eisoes fynediad at adnoddau mewnol, megis cofnodion y Dreth Gyngor, a ddylai eu cynorthwyo i gyflawni eu rôl o ran cynnal cofrestrau cywir. Roedd cefnogaeth ar y cyfan i barhau i ddefnyddio data presennol awdurdodau lleol, yn ogystal â chofnodion iechyd neu gofnodion tai. O ran yr ail o'r rhain, fodd bynnag, roedd llawer llai o gefnogaeth i ddefnyddio gwybodaeth a allai gael ei dal gan landlordiaid preifat ac, yn fwy eang, y sector preifat yn gyffredinol. Roedd y sylwadau hyn yn aml yn canolbwyntio naill ai ar ddiogelwch, dibynadwyedd a phreifatrwydd data, neu ar roi beichiau gweinyddol a allai fod yn anghymesur ac yn gostus ar y rhai a fyddai â gorchwyl i gasglu'r data, pwynt a godwyd hefyd mewn perthynas â dyletswydd newydd ar asiantaethau yn y sector cyhoeddus.

Roedd y Gymdeithas Diwygio Etholiadol, er enghraifft, a hithau'n gefnogol i'r egwyddor gyffredinol ac i "fecanweithiau gwell i asiantaethau hysbysu Swyddogion Cofrestru Etholiadol pan fo cyfeiriad pobl yn newid", yn llai clir bod angen dyletswydd i gyflawni hyn ac o'r farn y gellid rhoi mwy o bwyslais yn lle hynny ar gydweithredu a gweithio mewn partneriaeth. Yn gyffredin gydag ymatebion eraill, roedd y Gymdeithas Diwygio Etholiadol o'r farn hefyd y gallai hyn fod yn fwy perthnasol i gyrff cyhoeddus nag i fusnesau preifat, er enghraifft asiantau gwerthu tai. Cynigiodd Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol (AEA) sylwadau a oedd yn gefnogol i ddefnyddio setiau data ehangach, y tu hwnt i ddata awdurdodau lleol, ac yn y data hwn roeddent yn cynnwys gwybodaeth a ddelir gan wasanaethau cyfleustodau cyhoeddus (cofnodion nwy, trydan a dŵr er enghraifft), yr Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau, UCAS a chofnodion y GIG.


Yn aml, roedd y rhai a oedd yn gefnogol o'r farn y byddai casglu'r data hwn o fudd i bobl ifanc yn arbennig, gan y gallent hwy fod yn fwy tebygol o symud i fyw yn aml.

Yn nodweddiadol roedd y rhai a oedd yn cefnogi'r cynnig yn cyflwyno'r naill neu'r llall neu'r naill a'r llall o ddwy ddadl a oedd yn gyffredin drwy'r ymgynghoriad: mai mater o ddewis neu gyfrifoldeb personol oedd cofrestru; fodd bynnag, fel a amlygwyd yn flaenorol, mewn gwirionedd mae dyletswydd statudol ar bobl i gofrestru pan ydynt yn cael eu gwahodd gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol i wneud hynny; ac roedd angen gofal mawr o osgoi ymyrryd â phreifatrwydd personol neu; y byddai gosod dyletswyddau i gasglu a chyfnewid gwybodaeth yn feichus ac yn gostus a/neu yn anghymesur â'r canlyniad bwriadedig.

Datblygu cofrestr electronig i Gymru gyfan

C12. Beth yw eich barn am ddatblygu un gofrestr electronig i Gymru?

Fersiwn ar gyfer Pobl Ifanc C6. Ydych chi'n meddwl y dylen ni gael un gofrestr electronig ar gyfer Cymru?



Ar y cyfan, roedd 60% o'r ymatebion yn gadarnhaol, gyda 21% yn gwrthod y syniad ac 18% arall yn dweud nad oeddent yn teimlo'n gryf o blaid nac yn erbyn. Er bod y mwyafrif o'r aelodau o'r cyhoedd a fynegodd farn yn gefnogol – o 3:1 bron iawn – roedd hyn yn llai pendant wrth ystyried ymatebion gan gynghorau. Roedd Cynghorau Sir neu Fwrdeistref Sirol yn gwrthwynebu o 2:1, tra bo Cynghorau Tref neu Gymuned yn gefnogol o ychydig mwy na 2:1. Un thema gyffredin yma oedd na ddylai baich system fod yn fwy na'i defnyddioldeb.

Ar y cyfan, roedd llawer o'r ymatebion yn mynegi barn wahanol am yr un mater: tra bo rhai o'r farn bod anafantision, roedd eraill o'r farn bod manteision i'w cael o ddatblygu cofrestr electronig.

Roedd llawer o ymatebwyr o'r farn bod y syniad o gael un gofrestr electronig yn gyson â datblygiadau mewn technoleg ac roeddent i'w gweld yn ddiamynedd i systemau aros gyfuwch â hynny. Yn nodweddiadol, y farn oedd y byddai system yn gost-effeithiol, y gallai arwain at fwy o effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gweithredol a gwella cyfranogiad mewn prosesau democrataidd. Roedd barn hefyd, ar ddwy ochr y ddadl, y byddai cofrestru electronig yn rhagflaenu pleidleisio electronig.

Y thema fwyaf cyffredin, fodd bynnag, oedd diogelwch system o'r fath rhag twyll a hacio posibl, ac, i raddau llai helaeth, camddefnydd posibl o wybodaeth bersonol. Er na fyddai nifer fawr yn cefnogi un gronfa ddata electronig am y rheswm hwnnw, roedd eraill o blaid ar yr amod bod mesurau technegol a diogelu priodol yn eu lle.

Roedd rhai amheuon ynghylch 'hanes' blaenorol 'cynlluniau data mawr' a'u heffeithiolrwydd (sy'n groes i'r farn a nodweddir uchod). Yn erbyn hyn, roedd eraill o'r farn y byddai budd i'w gael o boblogaeth gymharol fach Cymru a oedd yn golygu y dylai fod yn ddichonol sefydlu system yn genedlaethol ledled Cymru. Fodd bynnag, roedd safbwyntiau croes i'w gilydd wrth ystyried a ddylid paratoi cronfa ddata electronig ar lefel y DU, Cymru ynteu, yn fwyaf cyffredin, ar lefel leol.

Ystyriaeth bellach oedd na ddylai system fod â thuedd yn erbyn y rhai nad oeddent yn defnyddio cyfrifiaduron neu a oedd heb fynediad at gyfrifiaduron a/neu nad oeddent yn 'hyddysg mewn T.G', er ei bod yn bosibl bod peth dryswch yma ynghylch diben bwriadedig y gofrestr, gan na fyddai gan bleidleiswyr fynediad uniongyrchol ati, dim ond Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u staff.


Yn olaf, roedd nifer fawr o ymatebwyr yn teimlo nad oedd digon o wybodaeth ganddynt i ffurfio barn ar y cam hwn.

3. Y system bleidleisio

Cynnig dewis: System y Cyntaf i'r Felin neu Bleidlais Sengl Drosaglwyddadwy

C13. A ydych yn cytuno y dylai prif gynghorau fod yn gallu dewis eu system bleidleisio?

Fersiwn ar gyfer Pobl Ifanc C7. Ydych chi'n meddwl y dylai pob cyngor gael dewis ei system bleidleisio ei hun?



Roedd 694 o ymatebion i'r cwestiwn ynghylch prif gynghorau'n cael y gallu i ddewis y system bleidleisio yn eu hetholiadau. O'r ymatebion, cafodd 600 eu cyflwyno gan aelodau o'r cyhoedd.

Fe esgorodd y cwestiwn ar ymatebion a oedd yn bendant ar y cyfan ac weithiau'n gadarn, yn enwedig lle'r oedd pobl yn anghytuno â'r cynnig. Ar y cyfan, roedd 18% yn cytuno â'r cwestiwn ac 82% yn anghytuno. Gwelwyd lefelau tebyg o gefnogaeth ymhlith y rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad ar gyfer pobl ifanc gyda 74% yn anghytuno a 26% o blaid.

Er bod anghytundeb cyffredinol, fe sylwyd ar lefelau gwahanol o gonsensws yn y mathau amrywiol o ymatebydd. Er enghraifft, cafodd yr egwyddor ei gwrthod yn unfrydol gan y 18 o ymatebwyr a oedd yn Gynghorau Sir neu Fwrdeistref Sirol. Roedd 82% o'r ymatebion gan aelodau o'r cyhoedd yn mynegi anghytundeb. Roedd peth cefnogaeth weladwy, er ei bod yn gefnogaeth leiafrifol, gan y Cynghorau Tref neu Gymuned (15 o ymatebion) lle'r oedd 1:3 yn cytuno â'r cwestiwn – patrwm tebyg i'r un ymhlith y rhai a oedd yn ymateb ar ran grŵp gwleidyddol/plaid wleidyddol, corff cynrychiolaidd, corff proffesiynol neu gymdeithas broffesiynol (15 ymateb arall).

Roedd y sylw mwyaf mynych yn un o blaid un system *ledled* Cymru – neu, ym marn rhai, ledled y DU. Roedd mwy na 250 o ymatebion yn cynnwys amrywiadau ar y thema hon. Roedd nifer sylweddol o'r ymatebion hyn, yn ogystal â rhai ymatebion eraill, yn nodi natur 'fratiog' annymunol (iddynt hwy) systemau caniaatol – h.y. gwahanol rai ar gyfer gwahanol fathau o etholiad yn ogystal â bod gan ardaloedd awdurdodau systemau gwahanol i'w gilydd. I lawer roedd potensial y gallai hyn beri dryswch ymhlith pleidleiswyr, gyda rhai'n awgrymu y byddai'n gweithredu fel rhwystr i gyfranogi.

Roedd cefnogaeth gref (100+ o sylwadau) hefyd i fynd ati ymhellach i ddatblygu amrywiad ar gynrychiolaeth gyfrannol, yn anad dim y system Pleidlais Drosaglwyddadwy Sengl, neu fabwysiadu amrywiad o'r fath, o fewn system bleidleisio gyson. Er bod peth cefnogaeth gyfyngedig i system y Cyntaf i'r Felin (CiF), roedd y nifer yn llai na deg ac roedd yn cael ei gwrthbwysu'n fawr gan sylwadau eraill a oedd yn beirniadu'r system CiF bresennol yn benodol.


Un sylw a wnaed dro ar ôl tro gan y rhai a oedd yn anghytuno â'r cwestiwn oedd y byddai'r broses, pe bai'n cael ei chyflwyno mewn deddf, yn agored i hunan-fudd neu "jerimandro". Un sylw cyffredin oedd y dylai un system bleidleisio gael ei phennu a'i gorfodi gan Lywodraeth Cymru, yn hytrach na bod penderfyniad yn cael ei wneud ar lefel leol.

Er bod y rhai a oedd yn anghytuno â'r cwestiwn yn aml yn rhannu pryderon cyffredin, cafodd cefnogaeth i'r cynnig ei mynegi yn y rhan fwyaf o achosion gan ymateb "ydw" syml (95 o achosion).

Roedd y nifer fach iawn (18) o ymatebion naratif a oedd yn dynodi cytundeb mewn egwyddor yn cael eu nodweddu gan wahanol fathau o ymateb. Wedi dweud hynny, roedd y mwyaf cyffredin o'r rhain (11 o ymatebion) yn seiliedig ar sylwadau o blaid system gyson, gan ffafrio cynrychiolaeth gyfrannol neu fynegi anfodlonrwydd ar CiF. Roedd nifer fach o ymatebion a oedd yn fwy agored gadarnhaol yn nodi'r posibilrwydd o fwy o "arloesi a chynnydd", gyda phenderfyniadau'n cael eu gwneud ar lefel fwy lleol, ac yn adlewyrchu'r gwahanol anghenion a demograffeg ledled rhannau o Gymru. Roedd llai na deg ymateb yn cysylltu'r penderfyniad â'r agenda ehangach o ran diwygio llywodraeth leol.

Ar ddwy ochr y drafodaeth, roedd rhai'n gweld yr angen am fwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth am y prosesau cysylltiedig, yn ogystal â mandad cyhoeddus, yn hytrach nag un a bennir gan aelodau etholedig (roedd llond llaw o ymatebion yn cyfeirio at benderfynu ynghylch mabwysiadu'r cynnig yn dilyn refferendwm).

C14. A ydych yn cytuno y dylid cael mwyafrif dau draean ar gyfer newid cyfansoddiadol fel hwn?



Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn fwy cyfartal. Ar y cyfan, roedd 57% yn cytuno a 42% yn anghytuno. Roedd y rhaniad hwn yn cyfateb fwy neu lai â barn y rhai mewn swyddi etholedig.

Yn naturiol, fe wnaeth llawer o'r ymatebwyr ateb o ran y cwestiwn a oedd yn rhagflaenu'r un hwn a'u hymatebion blaenorol. Yn nodweddiadol, ar y ddwy ochr, roedd hyn yn cynnwys cyfeiriadau at Bleidlais Drosaglwyddadwy Sengl. Roedd nifer fawr yn anghytuno â'r cynnig hwn am eu bod yn gwrthod telerau cwestiwn 13 a bod arnynt eisiau system a oedd naill ai'n Bleidlais Drosaglwyddadwy Sengl neu'n system Cyntaf i'r Felin.

Fodd bynnag, roedd rhaniad rhwng y niferoedd ar y cyfan yn llawer mwy cyfartal nag ar gyfer cwestiwn 13.

Ymddengys fod angen datblygu cynigion yn fwy i osgoi dryswch. Er enghraifft, roedd diffyg eglurder o ran pwy fyddai'r corff penderfynu: ai dau draean o Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ynteu o gynghorau neu o'r etholwyr?

O'r rhai a fynegodd gytundeb cyffredinol, roedd rhai'n teimlo bod newid o'r fath yn benderfyniad mawr ac, yn unol â hynny, y byddai mwyafrif mawr yn briodol. Dynododd nifer fach o'r ymatebwyr y dylai'r mwyafrif sy'n ofynnol fod hyd yn oed yn fwy na dau draean.


Eto, dywedodd nifer fawr bod yn well ganddynt gynrychiolaeth gyfrannol lwyr, ond fe ddwedon nhw hefyd, pe bai'n ganiataol, y byddai mwyafrif o ddau draean yn briodol. Roedd gan y rhai yr ymddengys eu bod wedi tybio bod y cwestiwn yn cyfeirio at fwyafrif o ddau draean o'r etholwyr farn gymysg wrth ystyried a oedd hyn yn golygu cyfanswm y rhai sydd wedi'u cofrestru i bleidleisio ynteu'r nifer sy'n pleidleisio yn yr etholiad mewn gwirionedd.

O'r rhai a oedd yn anghytuno â'r cwestiwn, roedd tua un ym mhob chwe ymatebydd yn teimlo y byddai mwyafrif syml yn ddigonol.

Cyfnodau pum mlynedd

C15. A ydych yn cytuno y dylai cyfnod llywodraeth leol yng Nghymru gael ei bennu'n gyfnod pum mlynedd?

Fersiwn ar gyfer Pobl Ifanc C8. Ydych chi'n meddwl y dylai etholiadau fod pob pum mlynedd?



O'r 653 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, roedd 70% yn cytuno a 29% yn anghytuno. Roedd hyn yn cyferbynnu â'r fersiwn ar gyfer pobl ifanc, a esgorodd ar lawer mwy o ymatebion a oedd wedi'u rhannu'n gyfartal, gyda 52% yn cytuno a 48% yn anghytuno.

O'r rhai a oedd yn cytuno â chyfnod o bum mlynedd, roedd tua 90% yn cytuno'n gryf. Roedd y farn o blaid yn tueddu i fod wedi'i chanoli â synnwyr canfyddedig – ac arbedion costau – cysoni cyfnodau etholiadau â rhai Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth y DU. Fodd bynnag, yn erbyn hyn roedd pryder y gallai cysoni cylchoedd etholiadol arwain at ddryswch ymhlith pleidleiswyr ynghylch y cyrff llywodraethu amrywiol y maent yn ethol cynrychiolwyr iddynt.

Roedd rhai o'r farn bod cyfnod o bum mlynedd yn fanteisiol o ran galluogi gweinyddiaethau i fod â digon o amser i roi eu cynlluniau ar waith.

I'r gwrthwyneb, roedd mwyafrif o'r rhai a oedd yn cytuno â chyfnod estynedig yn teimlo bod y cylchoedd pedair blynedd presennol yn briodol ac yn ddigon hir. Roedd nifer sylweddol yn teimlo y byddai tair blynedd yn fwy boddhaol, gyda chyfnodau byrrach yn golygu bod cynghorwyr yn fwy atebol i'r etholwyr. Roedd pobl a oedd yn coleddu'r farn hon yn aml yn gwneud sylwadau am ansawdd canfyddedig cynghorwyr lleol ac yn mynegi pryderon y gallai cynghorwyr neu gynghorau 'aneffeithiol' aros mewn grym am gyfnodau hwy byth.


Roedd safbwyntiau lleiafrifol ar ddwy ochr y ddadl yn seiliedig ar y farn y dylai fod terfynau o ran nifer y cyfnodau y gallai ymgeiswyr sefyll ar eu cyfer. Hefyd, mynegodd ychydig o ymatebwyr ar y ddwy ochr farn bod angen mecanwaith i waredu cynghorwyr neu gynghorau 'aneffeithiol' cyn bod eu cyfnod llawn yn dod i ben.

4. Y broses bleidleisio

C16. A ydych yn cytuno mewn egwyddor y byddai'n fuddiol diwygio'r system bleidleisio i annog mwy o bobl i gymryd rhan?

Fersiwn Hawdd ei Ddeall C6. A oes arnon ni angen rhoi cynnig ar ffyrdd eraill o bleidleisio?

Fersiwn ar gyfer Pobl Ifanc C9. Ydych chi'n meddwl y dylen ni newid y system bleidleisio er mwyn cael mwy o bobl i gymryd rhan?



Roedd mwyafrif cryf iawn o'r ymatebion yn cefnogi'r cynnig hwn yn llawn neu'n rhannol. Roedd ychydig yn llai na 90% o'r rhai a ymatebodd i'r brif ddogfen ymgynghori'n cytuno, ynghyd â 74% o ymatebion gan bobl ifanc.

O'r rhai a oedd yn cytuno, eto fe gyfeiriodd nifer sylweddol at ddiwygiad a oedd yn angenrheidiol yn eu tyb hwy: newid o system CiF a chefnogaeth i system gyson o gynrychiolaeth gyfrannol. Mynegwyd barn fod angen hyn er mwyn sicrhau bod pleidleiswyr yn teimlo bod y bleidlais yn werthfawr ac felly y byddai'n arwain at fwy o gyfranogiad.


Barn arall, er ei bod yn farn leiafrifol, oedd y dylid gwneud pleidleisio'n orfodol. Soniodd nifer fach hefyd am angen canfyddedig i wella hygyrchedd ar gyfer grwpiau neu ardaloedd heb gynrychiolaeth ddigonol. Yn y cyswllt hwn, yn arbennig, roedd nifer fach hefyd yn ystyried bod manteision i'w cael o wella hygyrchedd digidol. Eto, roedd nifer fach o'r farn y gallai system ddigidol arwain at fwy o risg o dwyll neu gamddefnydd.

Fodd bynnag, roedd y rhai a oedd yn erbyn yn teimlo weithiau ei bod eisoes yn ddigon rhwydd pleidleisio ac nad oedd tystiolaeth y byddai diwygiad yn gwella nifer y pleidleiswyr. Yn gysylltiedig â hyn, barn leiafrifol oedd y gallai'r gost fod yn fwy nag unrhyw fanteision tybiedig.

Fe wnaeth rhai ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn anghytuno â'r cwestiwn ymateb gan ddweud y byddai'n dibynnu'n fawr ar natur y diwygiadau a gynigir.

C17. A oes unrhyw gynlluniau eraill na roddir sylw iddynt isod y gellid eu defnyddio i alluogi mwy o bobl i gymryd rhan mewn etholiadau yng Nghymru?

Mewn ymateb i'r pedwerydd o'r un ar ddeg o gwestiynau 'agored' yn yr ymgynghoriad, fe gynigiodd 138 o ymatebwyr sylwadau am ffyrdd o alluogi mwy o bobl i gymryd rhan mewn etholiadau. Caiff y mathau o ymatebion eu dangos yn y siart bar isod:



Fel y gellir gweld, roedd yr ymatebion mynychaf yn ymwneud â ffafriaeth gref, a oedd yn aml yn cael ei mynegi mewn geiriau yr un mor gryf, o blaid system sy'n seiliedig ar gynrychiolaeth gyfrannol, er enghraifft Pleidlais Drosglwyddadwy Sengl. Roedd ymatebwyr yn aml o'r farn bod y system CiF yn atal neu y gallai atal pobl rhag pleidleisio mewn etholiadau, neu rhag sefyll ynddynt. Roedd nifer yn teimlo bod y system CiF yn un 'fras', ond hefyd yn hen ffasiwn gan ei bod wedi deillio o system lle bu dwy brif blaid, yn hytrach nag ystod o opsiynau gwleidyddol sy'n fwy amrywiol ar hyn o bryd yn eu tyb hwy. Y farn yma yn aml oedd, pe bai seddi'n gysylltiedig yn fwy 'amlwg' â phleidleisiau a fwriwyd ar draws y bleidlais, yna byddai mwy o bobl yn barod i bleidleisio. Mae hwn yn teimlad a fynegwyd ar draws yr ymgynghoriad.

Themâu allweddol eraill oedd gwella ymwybyddiaeth neu addysg pleidleiswyr trwy ystod o dulliau, gan gynnwys yr addysgu mewn ysgolion a cholegau, dealltwriaeth fwy

ddatblygedig am 'ddinasyddiaeth' (cyfeiriodd rhai at y ffaith bod hyn o fudd arbennig i fyfyrwyr a lleiafrifoedd ethnig) a chatau gan bleidiau gwleidyddol i ddatblygu'r wybodaeth yn eu hymgyrchoedd ymhellach.

Roedd cyfran sylweddol o'r ymatebion yn cyfeirio hefyd at alluogi mwy o bobl i gymryd rhan trwy newid i bleidleisio gorfodol.


Gyda'i gilydd, roedd y mathau o ymatebion uchod yn rhoi cyfrif am bron i 70% o'r holl sylwadau. O'r ymatebion nodweddiadol eraill, cafodd manteision canfyddedig pleidleisio electronig eu trafod eto yng nghyd-destun galluogi mwy o bleidleiswyr i gymryd rhan.

Pleidleisio drwy'r post yn unig

C18. A ddylai cynghorau gael dewis defnyddio system bleidleisio drwy'r post yn unig mewn etholiadau cyngor?

Hawdd ei Ddeall C7. A oes arnoch chi eisiau postio eich pleidlais ar gyfer etholiadau'r cyngor?

Fersiwn ar gyfer Pobl Ifanc C10. Ydych chi'n meddwl y dylai cynghorau ddewis defnyddio system pob pleidlais trwy'r post ar gyfer eu hetholiadau?



Roedd 72% o'r 700 o ymatebion ar bwnc pleidleisio drwy'r post yn unig yn anghytuno y dylai cynghorau gael dewis system o bleidleisio drwy'r post yn unig mewn etholiadau cyngor. Eto, gwelwyd ymateb tebyg mewn ymateb i'r fersiwn ar gyfer pobl ifanc gyda 64% yn anghytuno â'r syniad o bleidleisio drwy'r post yn unig. Fodd bynnag, roedd 67% o'r ymatebwyr i'r fersiwn hawdd ei ddeall o blaid system o bleidleisio drwy'r post yn unig.

Yn yr ystod o sylwadau a gyflwynwyd, roedd dwy nodwedd allweddol yn amlwg: diogelwch a dewis pleidleiswyr. Y sylw mynychaf oedd bod pobl yn meddwl bod pleidleisio drwy'r post yn fwy agored i dwyll, gorfodaeth ac, yn ôl nifer fach o ymatebion, yn system lle gall pleidleisiau fynd ar goll yn y system neu gael eu colli. Gwnaed nifer o sylwadau wedi'u geirio'n gryf i'r perwyl hwn.

Fe wnaed nifer yr un mor fawr o sylwadau o blaid dewis pleidleiswyr. Er bod rhai'n fwy digyffro wrth ystyried pleidleisio drwy'r post, roeddent yn aml yn ei ystyried yn un o'r opsiynau a ddylai fod ar agor i bleidleiswyr. Roedd nifer sylweddol o sylwadau'n cyfeirio at y mwynhad neu'r ymdeimlad o ymgysylltu dinesig yr oedd pleidleiswyr yn ei gael o fynd i orsaf

bleidleisio i fwrw eu pleidlais. Yn gysylltiedig â hyn, fe wnaed nifer o sylwadau o blaid pleidleisio electronig, yr ystyrir ei fod yn fwy addas ar gyfer dewisiadau modern a phobl ifanc.


Roedd nifer is o sylwadau'n mynegi pryderon y gallai newid i un math o bleidleisio fod yn wrthgynhyrchiol gan y gallai cyfyngu ar ddewis beri i lai o bobl gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd. Fe wnaed sylw pellach gan nifer fach y dylai dulliau pleidleisio fod yn gyson ledled Cymru.

Roedd ychydig dros chwarter yr ymatebwyr yn cytuno â'r cwestiwn. O'r rhai a ddarparodd sylwadau, fe gynigiodd nifer fach gefnogaeth lwyr, a hwythau er enghraifft o'r farn bod arbediadau o ran costau i'w cael o symud i system o bleidleisio drwy'r post yn unig, neu y byddai'n helpu i fynd i'r afael â materion hygrychedd. Roedd eraill o'r farn bod y system yn gam tuag at eu dewis o blaid pleidleisio digidol. Roedd un ymateb o'r farn bod yr achos tystiolaeth a oedd yn dadlau y byddai niferoedd uwch yn pleidleisio mewn etholiadau cynghorau tref a chymuned wedi cael ei gyfleu (er y dylid nodi mai dim ond un o'r 14 o ymatebion gan gynghorau tref neu gymuned a phedwar o'r 14 o ymatebion gan gynghorau sir a bwrdeistref sirol oedd yn cytuno â C.18).

Cafwyd ymatebion mwy amodol a oedd yn dynodi y byddai pobl yn cefnogi'r newid pe bai darpariaethau penodol yn cael eu bodloni. Er enghraifft, gan ragweld cwestiwn 19, byddai nifer yn cytuno ar yr amod bod cynllun peilot a gwerthusiad llwyddiannus yn cael eu cwblhau. Yn fwy cyffredin, byddai cefnogaeth yn amodol ar ddiogelu unrhyw system rhag camddefnydd neu wall, yn enwedig pe bai dynodwyr personol yn cael eu dileu fel rhan o newid i bleidleisio drwy'r post yn unig. Byddai niferoedd tebyg yn cefnogi newid pe gellid dangos arbedion cysylltiedig o ran costau neu rwyddineb gweinyddol.

Roedd niferoedd bach o'r farn y dylai pa bynnag system a gaiff ei mabwysiadu fod yn gyson ledled Cymru neu, os nad oedd, y byddai angen cyfathrebiadau clir i leihau i'r eithaf y potensial ar gyfer negeseuon cymysg a drysu pleidleiswyr.

C19. A ddylid cynnal ymarferiadau treialu i ddechrau?



Roedd mwy o wahaniaeth barn ymhlith ymatebwyr wrth ateb y cwestiwn a ddylid cynnal cynllun peilot cyn unrhyw newid i bleidleisio drwy'r post yn unig. O'r 609 o ymatebion, roedd 55% yn cytuno y dylid cynnal yr ymarferiad peilot yn gyntaf gyda 43% yn anghytuno.


O'r rhai a oedd yn anghytuno, fe ymatebodd nifer fawr gan ddynodi nad oeddent yn dymuno newid i drefn o bleidleisio drwy'r post yn unig o gwbl, yn hytrach nag anghytuno y dylid cynnal cynllun peilot ar gyfer datblygiad o'r fath yn gyntaf.

O'r rhai a oedd yn cefnogi ymarferiadau peilot, gan gynnwys y rhai a oedd yn gwrthwynebu pleidleisio drwy'r post yn unig, roedd llawer o'r farn, pe bai'n cael ei gyflwyno, y dylid cynnal ymarferiadau peilot yn gyntaf i dreialu system o bleidleisio drwy'r post yn unig. Un farn eang oedd y dylai unrhyw newid sylweddol i bleidleisio gael ei phrofi'n llawn yn gyntaf ac mai dyma ddylai'r safbwynt diofyn fod. Yn ôl rhai ymatebwyr, gallai proses beilot ddarparu tystiolaeth o ran sut orau y gall newidiadau i'r broses bresennol gael eu rhoi ar waith i ddiwallu anghenion pleidleiswyr. Dylai proses beilot lyfnhau unrhyw anawsterau ar adeg gynnar, gan felly leihau i'r eithaf niferoedd y defnyddwyr anniddig yn ddiweddarach.

Roedd eraill o'r farn y byddai ymarferiadau peilot yn gostus, na fyddai'n bosibl allosod canlyniadau a chanlyniadau o un awdurdod i'r llall ac y gallai fod yn ddrislyd i bleidleiswyr.

Un pwynt arall a wnaed yn erbyn cyflwyno ymarferion peilot oedd eu bod yn ddiangen gan ei bod wedi bod yn bosibl tynnu ar dystiolaeth bresennol i ategu effeithiolrwydd pleidleisio drwy'r post yn unig.

C20. A ddylai cynghorau gael defnyddio system bleidleisio drwy'r post yn unig mewn ward unigol neu mewn nifer o wardiau o fewn ardal y cyngor?



Ar y cwestiwn cysylltiedig a ddyldid caniatáu i gynghorau redeg systemau pleidleisio drwy'r post yn unig mewn ward benodol neu wardiau penodol yn eu hardal, roedd 80% o'r ymatebwyr yn anghytuno.

Fe wnaed llai o sylwadau mewn perthynas â'r cwestiwn hwn ac roedd y rhai a wnaed yn aml yn adleisio'r farn a fynegwyd yng nghwestiwn 18. Y farn fwyaf cyffredin ymhlith y sylwadau a oedd yn gwrthod y syniad hwn oedd y dylai fod system gyffredinol, boed honno'n cael ei chymhwyso ar lefel Cymru gyfan neu ledled yr holl wardiau yn ardal y cyngor penodol. Roedd nifer fach o ymatebwyr o'r farn y dylid rhoi'r gorau i bleidleisio drwy'r post yn gyfan gwbl neu fel arall y dylai fod ar gael dim ond i'r rhai sy'n gorfforol yn methu â

mynd i orsaf bleidleisio. Eto, fe godwyd pryderon ynghylch twyll; yn fwy felly, fodd bynnag, o ran y potensial canfyddedig ar gyfer dylanwadu gwleidyddol, gan y tybid y byddai pleidiau'n debygol o ddewis system a oedd yn gweddu'n well i'w nodau gwleidyddol, yn hytrach na democrataidd. Roedd nifer fach yn cwestiynu pa feini prawf fyddai'n cael eu cymhwyso i benderfynu a oedd ward yn mynd i fod yn un lle mae etholwyr yn pleidleisio drwy'r post yn unig. Ar ben hynny, roedd rhai ymatebwyr o'r farn y byddai system a gymhwysir yn anghyson yn arwain at ddryswch.

Fel gyda chwestiwn 18, fe godwyd materion dewis pleidleiswyr: mai'r etholwyr yn hytrach na'r cyngor ddylai benderfynu trin wardiau'n wahanol neu beidio. Eto, roedd cefnogaeth i'r egwyddor y dylai pleidleiswyr allu dewis y math o drefn pleidleisio (drwy'r post, yn bersonol, neu i rai ymatebwyr, yn electronig) sy'n gweddu orau i'w hanghenion neu eu dewisiadau.

Fe wnaeth nifer fach o'r rhai a ddynododd eu bod yn cytuno ddarparu sylwadau ategol. Roedd y nifer uchaf o'r rhain, saith, yn cydnabod budd posibl, yn enwedig mewn cymunedau gwledig neu ynysig (yn wir, roedd un ymateb yn cyfeirio at ranbarth etholiadol a oedd yn cynnwys saith etholwr yn unig). Roedd peth cefnogaeth i weithredu'r cynnig fel treial neu gynllun peilot i brofi'r effaith ar nifer y pleidleiswyr sy'n cymryd rhan. Y sylw arall a gododd dro ar ôl tro oedd y dylai trigolion mewn wardiau yr effeithir arnynt allu cydsynio â chynnig i fabwysiadu neu dreialu'r math y mae o drefn pleidleisio neu ei wrthod.

Pleidleisio electronig a phleidleisio o bell

C21. A ddylai pleidleisio electronig fod ar gael mewn etholiadau lleol?

Fersiwn Hawdd ei Ddeall C8. A oes arnoch chi eisiau pleidleisio trwy ddefnyddio ein cyfrifiadur?

Fersiwn ar gyfer Pobl Ifanc C11. Ydych chi'n meddwl y dylai pleidleisio electronig fod ar gael?


C22. A ddylai pleidleisio o bell fod ar gael mewn etholiadau lleol?

Fersiwn Hawdd ei Ddeall C9. A oes arnoch chi eisiau pleidleisio trwy ddefnyddio eich cyfrifiadur eich hun neu ffôn clyfar?


Fersiwn ar gyfer Pobl Ifanc C12. Ydych chi'n meddwl y dylai pleidleisio o bell fod ar gael mewn etholiadau lleol?

Roedd peth dryswch yn yr ymatebion rhwng cwestiynau 21 a 22. Roedd y sylwadau o lawer o'r ymatebion i'r ddau gwestiwn yn awgrymu bod ymatebwyr wedi cymysgu rhwng mater offer pleidleisio electronig mewn gorsaf bleidleisio ar y naill law a phleidleisio electronig o bell o unrhyw leoliad arall, megis trwy ffôn clyfar neu gyfrifiadur, ar y llaw arall. Am y rheswm hwnnw caiff yr ymatebion i'r ddau gwestiwn eu hystyried gyda'i gilydd.

Cwestiwn 21:



Cwestiwn 22:



Ar y cyfan roedd cefnogaeth i bleidleisio electronig a phleidleisio o bell, gyda 72% o blaid pleidleisio electronig a 61% o blaid pleidleisio o bell. Roedd y sylwadau a gafwyd o blaid ac yn erbyn y cynigion yn debyg iawn ar gyfer y ddau gwestiwn. Fe fynegodd ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar gyfer pobl ifanc lefel debyg o gefnogaeth, gyda 71% o blaid pleidleisio electronig a 74% o blaid pleidleisio o bell.

Roedd y rhai a oedd yn cefnogi'r cynigion yn teimlo y byddai hyn yn moderneiddio etholiadau ac yn cynyddu nifer y bobl sy'n cymryd rhan, yn enwedig pobl ifanc. Er eu bod yn cydnabod cost gychwynnol y systemau hyn, fe nododd rhai ymatebwyr hefyd sut y gallai defnyddio technoleg electronig arbed arian i awdurdodau yn y tymor hir ac arwain at arbedion yn nifer y lleoedd pleidleisio y byddai angen eu darparu ac ar gostau argraffu.

Nodwyd hefyd sut y byddai dulliau pleidleisio electronig ac o bell yn mynd law yn llaw â chyfrif electronig, gan gyflymu'r broses gyfrif, yn enwedig pe bai system sy'n defnyddio cynrychiolaeth gyfrannol yn cael ei chyflwyno.


Fodd bynnag, roedd gan y rhai a oedd yn gefnogol i bleidleisio electronig a phleidleisio o bell rai pryderon, ac fe nodon nhw eu bod o blaid yn amodol ar sicrwydd ynghylch

diogelwch, diogeledd a chadernid y system a bod achos busnes clir i gyfiawnhau'r gwariant. Nododd rhai ymatebwyr y gellid cynnal cynllun peilot yn gyntaf ar gyfer unrhyw system pleidleisio electronig neu bleidleisio o bell.

Diogelwch a diogeledd oedd y prif bryder ymhlith y rhai nad oeddent yn gefnogol i bleidleisio electronig na phleidleisio o bell. Mynegwyd pryderon ynghylch cadernid y systemau pleidleisio a'u cydnerthedd yn wyneb hacio a bygythiadau eraill i ddiogeledd a allai fwrw amheuaeth ar gywirdeb y bleidlais. Roedd eraill o'r farn bod dibynadwyedd yn bryder gan y byddai angen seilwaith TG dibynadwy i letya'r systemau hyn, ac y byddai hynny'n gosod baich ar awdurdodau lleol.

Cyfrif electronig

C23. A ddylid cyflwyno cyfrif electronig ar gyfer etholiadau lleol yng Nghymru?



Roedd 69% o'r 675 o ymatebion i'r cwestiwn hwn yn cytuno, er bod tua chwarter yn cynnwys rhai cafeatau. Roedd 28% o'r ymatebwyr i'r brif ddogfen ymgynghori'n anghytuno â'r cynnig.

Roedd amrywiaeth o safbwyntiau o blaid cyfrif electronig. Yn nodweddiadol, ystyrir bod newidiadau i ddiweddarau'r system yn gyson â newidiadau eraill, ac yn enwedig â'r rhai y mae Swyddogion Cofrestru Etholiadol a gweinyddwyr wedi'u derbyn dros y degawd diwethaf. Un ymateb oedd ei fod yn beth "anarchaidd nad yw canlyniadau'n cael eu cyhoeddi'n gynt."

Byddai angen i system newydd, ar y cyd â phleidleisio electronig, fod yn ddibynadwy ac yn gadarn a byddai angen cynnal cynllun peilot yn y lle cyntaf, mwy na thebyg (ac o bosibl rhedeg y system ochr yn ochr â system a weithredir â llaw). Un farn gyffredin oedd y byddai angen sicrhau mesurau diogelu. Er enghraifft, dylai pleidlais arbennig o agos sbarduno neu arwain at ofyn am gyfrif â llaw.


O'r rhai a oedd yn anghytuno, un farn oedd bod systemau TG yn gostus i'w datblygu a'u cynnal. Roedd rhai o'r farn bod materion cysylltedd a diogeledd sy'n gysylltiedig â TG.

Roedd eraill o'r farn na ddylai system electronig ddisodli pobl, sydd mewn sefyllfa well i farnu pan fo angen.

Gorsafoedd pleidleisio symudol

C24. A ddylai gorsafoedd pleidleisio symudol fod ar gael mewn etholiadau lleol?

Fersiwn ar gyfer Pobl Ifanc C13. Ydych chi'n meddwl y dylai gorsafoedd pleidleisio symudol fod ar gael?



Roedd cefnogaeth gref i'w cynnig hwn gyda 78% o'r 654 o ymatebwyr yn dynodi eu bod o blaid. Aethpwyd y tu hwnt i'r ffigwr hwn yn yr ymgynghoriad ar gyfer pobl ifanc, gydag 84% o'r ymatebwyr i hwn yn dweud eu bod yn cefnogi'r cynnig.

Roedd manteision allweddol ym marn y rhai a oedd yn cytuno'n tueddu i fod yn seiliedig ar faterion sy'n ymwneud â mynediad mewn ardaloedd gwledig ac i'r rhai – yn enwedig pobl oedrannus – y gallai cyrraedd yr orsaf bleidleisio fod yn anodd iddynt.

Byddai eraill yn croesawu'r newid, ar yr amod ei fod yn gysylltiedig â phleidleisio electronig.

Ymhlith y rhai a oedd yn anghytuno, un farn oedd na fyddai angen cynyddu nifer y gorsafoedd pleidleisio pe bai pleidleisio electronig a mwy o bleidleisio drwy'r post yn digwydd.

Fe wnaeth sawl un ystyried mater y gost a pha un a fyddai'r gorsafoedd symudol yn bodoli ar draul gorsafoedd pleidleisio presennol. Roedd rhai o'r farn bod digon o orsafoedd pleidleisio'n barod a bod y system yn gweithio'n dda. Dywedodd nifer fach fod pleidleisio ymhlith yr henoed eisoes yn gymharol uchel ac nad oedd hyn yn awgrymu eu bod yn profi anawsterau o ran mynediad.


Ar ddwy ochr y drafodaeth roedd o bwys i'r ymatebwyr bod yn rhaid i unrhyw system fod yn ddiogel rhag twyll neu gamddefnydd posibl a bod yn rhaid i gostau gael eu gwrthbwysu gan y manteision (er mai cymysg oedd y farn wrth ystyried ai felly y byddai hi ac a oedd digon o alw).

Pleidleisio mewn llefydd heblaw mannau pleidleisio

C25. A ddylem alluogi swyddogion canlyniadau i ddefnyddio mannau pleidleisio eraill yn ogystal â'r gorsafoedd pleidleisio sefydlog?

Fersiwn Hawdd ei Ddeall C10. A oes arnoch chi eisiau defnyddio mannau eraill fel gorsaf bleidleisio?

Fersiwn ar gyfer Pobl Ifanc C14. Ydych chi'n meddwl y dylen ni gael gorsafoedd pleidleisio fel hyn yn ogystal â'r gorsafoedd pleidleisio sefydlog?



Gwelwyd patrwm tebyg yma gyda 76% o'r ymatebwyr i'r brif ddogfen yn cytuno ac 80% o'r ymatebwyr i'r fersiwn ar gyfer pobl ifanc yn cytuno ac, yn ôl y disgwyl, roedd y dadleuon hefyd fwy neu lai yr un fath â'r rhai mewn perthynas â'r cwestiwn blaenorol.

I'r rhai a oedd yn cefnogi'r cynnig, roedd eu barn yn aml yn ymwneud â chynnydd canfyddedig yn nifer y rhai sy'n cymryd rhan, yn enwedig ymhlith pobl oedranus a/neu eiddil, yn ogystal ag ymhlith pobl ifanc. O ran yr olaf, roedd rhai'n meddwl y byddai'r cynnig cyd-daro'n arbennig o dda â'r bwriad i ostwng yr oedran pleidleisio. Yng ngoleuni hynny, gallai fod potensial i ddefnyddio ysgolion, colegau, canolfannau ieuencid a chyfleusterau cymunedol eraill fel gorsafoedd pleidleisio. Eto, roedd rhai'n meddwl bod manteision arbennig i'r rhai mewn ardaloedd gwledig.

Cafodd cafeatau, ar y ddwy ochr, eu nodi o ran yr anghenraid canfyddedig am ddiogeledd a diogelu rhag twyll. Er enghraifft, un farn oedd y dylai swyddogion canlyniadau fod yn weladwy mewn gorsafoedd er mwyn 'dilysu'r' broses.

Roedd y rhai a oedd yn erbyn y cynnig yn aml yn meddwl bod sicrhau system fwy cydgysylltiedig yn golygu cost a risg diangen. Roedd rhai'n meddwl y byddai pleidleisio'n cael ei wneud mewn mannau mwy cyhoeddus o lawer ac, efallai, y byddai rôl a chymeriad unigryw'r orsaf bleidleisio'n cael eu lleihau.


Roedd rhai o'r farn nad oedd llawer o dystiolaeth ategol dros fannau pleidleisio o'r fath ac nid oeddent yn meddwl bod cynlluniau peilot blaenorol yn y maes hwn wedi arwain at gynnydd sylweddol yn y nifer sy'n pleidleisio.

Roedd barn a oedd yn gyffredin i'r rhai a oedd yn cytuno ac yn anghytuno y byddai angen cynnal archwiliad trylwyr o'r gost.

Pleidleisio ar wahanol ddiwrnodau ac ar fwy nag un diwrnod

C26. A ddylem ei gwneud yn bosibl i etholiadau lleol gael eu cynnal ar fwy nag un diwrnod ac ar ddyddiau heblaw dydd lau?

Fersiwn ar gyfer Pobl Ifanc C15. A ddylai etholiadau lleol gael eu cynnal ar fwy nag un diwrnod ac ar ddiwrnodau gwahanol i ddydd lau?



Cafwyd 673 o ymatebion mewn ymateb i'r cwestiwn hwn mewn dwy ran. Fe wnaeth 63% o'r ymatebwyr i'r ddogfen gyffredinol a 65% o'r ymatebwyr i'r fersiwn ar gyfer pobl ifanc ddynodi eu bod yn cytuno. Fe wnaed mwy o sylwadau mewn perthynas â mater cynnal etholiadau ar ddyddiau heblaw dydd lau nag a wnaed wrth ystyried a oedd yn fanteisiol cynnal etholiadau dros fwy nag un diwrnod.

O'r rhai a ddarparodd sylwadau ychwanegol roedd mwyafrif mawr (86% o 146 o ymatebion) yn gefnogol i ystyried dyddiau heblaw dydd lau.

Roedd tua hanner yn meddwl y gallai neu y dylai etholiadau gael eu cynnal yn ystod y penwythnos, gyda 27% yn cynnig dydd Sul. Roedd cefnogaeth yn aml yn seiliedig ar dybiaeth y gallai mwy o hyblygrwydd gynyddu nifer y rhai sy'n cymryd rhan, gyda rhai'n defnyddio tystiolaeth ryngwladol a oedd i'w gweld fel pe bai'n cadarnhau effeithiolrwydd, o ran nifer y rhai sy'n pleidleisio, etholiadau a gynhelir ar ddydd Sul. Fodd bynnag, roedd eraill o'r farn bod angen i'r dystiolaeth gael ei datblygu, trwy gynlluniau peilot, i gadarnhau'r effaith debygol yng Nghymru ac i benderfynu pa ddiwrnodau sy'n gweithio orau. Byddai cynlluniau peilot hefyd yn helpu i ddeall sut y byddai neu a fyddai pleidleisio ar benwythnosau'n effeithio ar gymudwyr (a oedd o bosibl yn fwy tebygol o bleidleisio ar eu ffordd i'r gwaith).

Ar nodyn ymarferol, roedd nifer o sylwadau y byddai pleidleisio ar y penwythnos yn golygu na fyddai angen i ysgolion, sy'n aml yn cael eu defnyddio fel gorsafoedd pleidleisio ar hyn o bryd, gau pe bai etholiadau'n cael eu cynnal ar benwythnosau.

Fe wnaeth y rhai nad oeddent yn gefnogol i newid o'r confensiwn presennol o bleidleisio ar ddydd Iau gyfeirio at y ffaith bod yr arfer wedi hen ennill ei blwyf ac roeddent yn cwestiynu gwerth newid rhywbeth a oedd i'w weld fel pe bai'n gweithio'n dda. Cyfeiriwyd at y niferoedd uchel a bleidleisiodd yn y refferendwm diweddar ar aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd fel enghraifft mewn un sylw. Roedd rhai'n cwestiynu a oedd tystiolaeth ar hyn o bryd i danategu'r tebygolrwydd y byddai newid yn cynyddu'r nifer sy'n pleidleisio ymhellach.

Ar nodyn ymarferol, fe wnaeth nifer fach y sylw, er y gallai pleidleisio ar benwythnosau effeithio'n llai ar ysgolion, y gall fod goblygiadau eraill o ran costau pe na bai manau addoli ar gael ar benwythnosau. Gallai costau eraill ddeillio o daliadau ar benwythnosau i swyddogion.

Ar fater cynnal etholiadau dros gyfnodau o fwy nag un diwrnod, roedd mwy na chwarter yr ymatebion yn gefnogol, gyda chyfran lai (22 o ymatebion pendant) yn erbyn y syniad. Roedd rhai sylwadau cefnogol yn cyfeirio at y nifer cymharol uwch o bobl yn pleidleisio mewn gwledydd a oedd wedi mabwysiadu'r syniad o bleidleisio dros fwy nag un diwrnod; fe awgrymodd un mai newid i'r system honno fyddai'r ffactor mwyaf o ran cynyddu nifer y rhai sy'n pleidleisio.


Roedd y rhai nad oeddent yn ffafrio newid o'r farn nad oedd llawer o dystiolaeth ategol, ond yn cyfeirio at gostau ychwanegol canfyddedig sy'n deillio o "hwyhau" y broses, ac at gollir'r ffocws sy'n ymhlyg mewn trefn lle mae pobl yn pleidleisio ar un diwrnod.

Pwynt arall, a wnaed mewn ymateb i nifer o'r cwestiynau ymgynghori, oedd bod angen i'r mater hwn gael ei ystyried ochr yn ochr â newidiadau i bleidleisio electronig.

Trefniadau symlach ar gyfer pleidleisio drwy'r post

C27. A ddylid ystyried symleiddio'r deunydd darllen a'r trefniadau ar gyfer pleidleisio drwy'r post?

C28. Yn eich barn chi, sut y dylai'r broses gael ei symleiddio?




Mae ymatebion i'r ddau gwestiwn cysylltiedig yma'n cael eu hystyried yma mewn un crynodeb. Cafwyd 646 o ymatebion i'r cwestiwn cychwynnol, gyda chwarter fwy neu lai, sef 155, yn mynd ymlaen i gynnis awgrymiadau o ran sut y gallai prosesau gael eu symleiddio.

Roedd 68% o'r ymatebwyr i gwestiwn 28 yn cytuno y dylid rhoi ystyriaeth bellach i symleiddio gweithdrefnau a llenyddiaeth pleidleisio. Un pwynt o blaid oedd, gorau po symlaf fo'r canllawiau, er bod llawer yn teimlo nad oeddent yn gallu rhoi rhagor o fanylion gan eu bod hwy eu hunain heb lawer o brofiad os o gwbl o bleidleisio drwy'r post.

Roedd ymatebwyr yn ystyried bod gan symlrwydd rôl allweddol o ran annog pobl i gymryd rhan. Roedd peth teimlad bod y cyfarwyddiadau presennol, gan gynnwys y "broses gofrestru", yn gallu bod yn anodd i'w deall, yn enwedig i'r rhai â lefelau llythrennedd isel mewn Cymraeg a/neu Saesneg ac y gallai hyn fod yn rhwystr i ymgysylltu. Gallai prosesau, gan gynnwys rhoi'r ffurflenni 'cywir' yn yr amlenni 'cywir' fod yn ddryslyd, gan arwain at wallau ac ychwanegu at lwyth gwaith y rhai sy'n didoli papurau pleidleisio.

Roedd symlrwydd yn thema allweddol yng nghwestiwn 28 hefyd: o bell ffordd, yr un math mwyaf mynych o ymateb oedd bod angen iaith glir a chyfarwyddiadau syml. Ni ddylai dogfennau fod yn rhy hir. Roedd darllen llenyddiaeth gymhleth ac anghyson ac, i raddau llai helaeth, dilyn prosesau (fel mewn gwahanol rannau o Gymru) yn cael eu hystyried yn weithredoedd sy'n mynd ag amser ac a all fod yn ddryslyd. Awgrymodd nifer fach hefyd y dylai fformatau gwahanol fod ar gael i ddarparu ar gyfer y rhai ag ystod o anghenion.



O'r 30% a oedd yn anghytuno â'r cwestiwn cychwynnol, roedd y rhan fwyaf o'r farn bod y broses, yn arbennig, eisoes yn ddigon syml. Pryder allweddol, a oedd yn gyffredin i'r rhai a oedd yn cytuno ac yn anghytuno â chwestiwn 27, oedd ei bod yn hynod bwysig lleihau neu ddiogelu rhag y potensial ar gyfer twyll neu faterion eraill sy'n effeithio ar gywirdeb y bleidlais.


Yn gyffredin â chwestiynau eraill, roedd nifer fach o'r farn y dylid cynnal cynllun peilot yn gyntaf i brofi unrhyw newidiadau, ac roedd nifer fach o'r farn bod angen adolygiad o'r system.

Yn olaf, fe wnaeth nifer o ymatebwyr y pwynt y byddai materion mewn perthynas â phleidleisio drwy'r post yn ddiwys, neu o leiaf yn llai o broblem, pe bai pleidleisio electronig yn cael ei gyflwyno.

Dangos dogfen adnabod mewn gorsaf bleidleisio

C29. A ddylai etholwyr sy'n mynd i orsaf bleidleisio orfod dangos dogfen adnabod cyn cael pleidleisio? Os felly, pa fathau o ddogfennau adnabod ddylai fod yn dderbyniol?

Fersiwn ar gyfer Pobl Ifanc C16. A ddylai pobl orfod dangos cerdyn adnabod cyn cael pleidleisio?



Ar y cyfan, roedd nifer y rhai a oedd yn cytuno ac yn anghytuno'n gyfartal iawn pan oedd ymatebwyr yn ystyried a ddylai fod gofyniad i ddarpar bleidleiswyr ddangos dogfen adnabod yn gyntaf. Roedd 53% o'r ymatebion i'r prif ymgynghoriad yn cefnogi'r egwyddor. Mae hyn yn groes i'r ymgynghoriad ar gyfer pobl ifanc, fodd bynnag, lle cafodd y cwestiwn ei wrthod o ychydig (roedd 51% yn anghytuno).

Gall llawer o'r sylwadau, ar y naill ochr a'r llall, gael eu nodweddu fel rhai sy'n ymwneud naill ai â diogelwch gwell rhag twyll a chamddefnydd neu â materion ymarferoldeb a sicrhau nad yw mynediad a'r nifer sy'n pleidleisio'n cael eu lleihau oherwydd yr angen i ddangos dogfen adnabod.


Roedd llawer a oedd yn cytuno'n gwneud hynny ar y sail y byddai gofyniad yn ychwanegu at gywirdeb a diogeledd pleidleisio ac yn lleihau twyll. I rai, ni fyddai problem fawr gan fod pobl wedi arfer â chael cais i ddangos dogfen adnabod i gadarnhau pwy ydynt mewn nifer o sefyllfaoedd. Yn nodweddiadol, roedd ymatebwyr yn y garfan hon o'r farn bod dogfen adnabod ffotograffig yn angenrheidiol. Y mathau o ddogfennau adnabod a grybwyllwyd fynychaf o blith y rhai y gellid eu defnyddio oedd pasbortau a thrwyddedau gyrru.

Roedd nifer o sylwadau, fodd bynnag, yn gwneud neu'n tynnu ar dybiaethau mai ychydig o dystiolaeth o dwyll pleidleiswyr oedd yng Nghymru ar hyn o bryd ac felly bod gofyniad i bleidleiswyr profi pwy ydynt – gan ddibynnu ar y math o ddogfennaeth a oedd yn angenrheidiol – i'w weld yn ddiangen. Awgrymodd rhai y gallai fod yn niweidiol hefyd. Gallai hyn fod yn arbennig o wir gan nad oedd gan bobl wastad fynediad, er enghraifft, at basbortau a/neu drwyddedau gyrru. Pe bai'r oedran pleidleisio'n cael ei ostwng i 16, gallai fod yn anodd i bleidleiswyr ifanc ddarparu'r ddogfen adnabod a oedd yn cael ei hystyried yn briodol. Fe wnaed llai o sylwadau, ond rhaid tebyg, o ran y mynediad sydd gan Bobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig at ddogfennau adnabod, ac yn fwy cyffredinol, at bobl dlotach y tybid yn aml nad oedd ganddynt basbortau na thrwyddedau gyrru.

Fe awgrymwyd ffyrdd ymarferol o oresgyn y broblem bosibl. Soniodd nifer am ddefnyddio cardiau adnabod pleidleiswyr a phrofiadau gyda'r rhain yng Ngogledd Iwerddon, gyda nifer fach yn amlygu manteision canfyddedig cerdyn adnabod cenedlaethol. I leiafrif o ymatebwyr, dylai unrhyw ofyniad fod yn un â 'chwyfyrddiad ysgafn', gyda dogfennau adnabod derbyniol yn cynnwys biliau cyfleustodau, pasys trafndiaeth neu gardiau undeb myfyrwyr. Roedd mathau eraill o ddogfennau adnabod yr ystyrid eu bod yn briodol yn cynnwys cyfriflenni banc neu gardiau credyd a rhif Yswiriant Gwladol.

O ran y sail dystiolaeth, yn ogystal â chyfeiriadau at Ogledd Iwerddon, roedd rhai sylwadau'n nodi y byddai cynlluniau peilot adnabod pleidleiswyr yn cael eu cynnal yn Lloegr y gwanwyn hwn ac y dylai canlyniadau'r cynlluniau hynny gael eu cymryd i ystyriaeth hefyd.

C30. A yw manteision mynnu gweld dogfen adnabod yn fwy na'r perygl o rwystro pleidleiswyr?



Ymddengys nad oedd geiriad y cwestiwn hwn yn eglur o bosibl: fe wnaeth nifer fawr o ymatebwyr a oedd yn honni cytuno neu anghytuno sylwadau a oedd yn ymddangos fel pe baent yn wahanol i'r farn honno.

Er bod nifer o ymatebion yn ymwneud ag angen canfyddedig i gymryd mesurau i atal twyll etholiadol, fe wnaeth nifer fawr o'r rhai a oedd yn ymddangos fel pe baent ar y naill ochr i'r ddadl neu'r llall y pwynt nad oes llawer o dystiolaeth o broblem dwyll gyffredin yng Nghymru ar hyn o bryd. Un farn gyffredin oedd y gallai'r gofyniad i ddangos dogfen adnabod rwystro pobl rhag cymryd rhan, yn enwedig pleidleiswyr ar incwm isel, neu ddarpar bleidleiswyr, a bod gofyniad i ddangos dogfen adnabod yn anghymesur â phroblem na phrofwyd ei bod yn bodoli neu sydd fel arall yn broblem fach iawn.

Roedd sylwadau, yn enwedig gan aelodau o'r cyhoedd, yn awgrymu hefyd nad oeddent yn teimlo'u bod wedi'u harfogi i ateb y cwestiwn a bod angen tystiolaeth neu ymchwil i ategu barn derfynol. Fe awgrymodd nifer fach y dylid cynnal cynllun peilot ac, i'r perwyl hwnnw, roedd dau gyfeiriad at ddysgu o werthusiad o'r cynlluniau adnabod pleidleiswyr sy'n cael eu cynnal (ar lefel y DU) eleni.

Un thema gyffredin, os oedd pobl yn dymuno pleidleisio, oedd nad oedd dangos dogfen adnabod yn rhwystr sylweddol i'r rhai "heb unrhyw beth i'w guddio", yn anad dim am ei fod yn ddisgwyliad cyffredin yr oedd pobl wedi arfer ag ef mewn nifer o amgylcheddau (er enghraifft, cyfnewid siec mewn Swyddfa Bost). Y farn yma oedd bod y rhan fwyaf o bobl eisoes yn meddu ar fathau o ddogfennau adnabod. Awgrymodd nifer fach hefyd na fyddai'n broblem o gwbl pe bai'n ofynnol i bobl gario cardiau adnabod cenedlaethol.

Y farn i'r gwrthwyneb oedd bod *nad oedd* gan lawer o bobl ddogfen adnabod briodol ac na ddylai gorfod caffael un eu rhoi dan anfantais, yn enwedig os oedd cost yn gysylltiedig, fel gyda phasbort. Yn nodweddiadol, roedd y farn hon, a fynegwyd gan y rhai a oedd yn cytuno

ac yn anghytuno â'r cwestiwn, yn nodi y dylai unrhyw ddogfen adnabod sy'n ofynnol fod yn hygyrch ac yn fforddiadwy.

5. Sefyll mewn etholiad


Dileu'r angen i gyhoeddi cyfeiriad post ymgeiswyr

C31. A ydych yn cytuno na ddylai fod yn angenrheidiol bellach i gyhoeddi cyfeiriad cartref ymgeisydd mewn deunydd etholiadol, gan gynnwys unrhyw beth a gyhoeddir yn electronig?

[54/46]

Fersiwn Hawdd ei Ddeall C11. Ydych chi'n meddwl y gallwn ni gymryd cyfeiriad cartref y person sy'n sefyll mewn etholiad oddi ar bopeth?

Fersiwn ar gyfer Pobl Ifanc C17. Ydych chi'n meddwl y dylen ni beidio â chyhoeddi cyfeiriad cartref yr ymgeiswyr?



Roedd y niferoedd a oedd yn cytuno ac yn anghytuno â'r cynnig hwn yn fwy cyfartal. Ar y cyfan, roedd 55% o blaid, ond roedd hyn yn cynnwys barn arbennig o gryf gan bleidiau neu grwpia gwleidyddol (75% o blaid) ac undebau llafur (100%). Roedd 65% o'r rhai a ymatebodd i'r fersiwn ar gyfer pobl ifanc yn cefnogi'r cynnig.

Roedd llawer o'r ymatebion o blaid yn nodi bod y ddarpariaeth hon eisoes yn bodoli ar gyfer ymgeiswyr seneddol ac y dylai'r un ddarpariaeth fodoli mewn etholiadau llywodraeth leol.

Un farn gyffredin, er na fyddai'n angenrheidiol darparu cyfeiriadau manwl o bosibl, oedd y dylai'n dal fod yn bosibl i etholwyr wybod a oedd ymgeisydd yn byw yn yr ardal yr oedd yn sefyll ynddi. Yn unol â hyn, dywedodd 59 o'r rhai a oedd yn cytuno â'r cynnig a 15 o'r rhai a oedd yn anghytuno y byddent yn gefnogol i gael gwared ar y gofyniad presennol dim ond pe bai rhyw wybodaeth arall am fan preswylion cael ei darparu, gan ddangos cysylltiad preswyl ymgeisydd â'r ardal. O safbwynt ymarferol, awgrymwyd y gallai hyn gynnwys cyhoeddi ward gartref neu god post cartref yr ymgeisydd, neu gyfeiriad cyswllt priodol arall

megis swyddfa'r etholaeth (fel sy'n digwydd gydag ymgeiswyr seneddol). Awgrymodd rhai y byddai cyfeiriad e-bost yn ddigonol yn lle cyfeiriad cartref.

Roedd pryderon amlwg, gan gynnwys ymhlith y rhai a oedd wedi bod yn ymgeiswyr yn flaenorol, ynghylch y bygythiad canfyddedig os yw manylion eu cyfeiriad yn cael eu cyhoeddi. Byddai angen i system newydd daro cydbwysedd rhwng yr angen am dryloywder (nodwedd fawr ar ddwy ochr y drafodaeth) a diogelwch ymgeiswyr. Un mater cysylltiedig a godwyd oedd y dylid creu tramgwydd penodol yn lle hynny er mwyn gallu ymdrin â'r rhai sy'n dychrynu ymgeiswyr. Fodd bynnag, gwnaeth eraill y sylw mai ychydig o fudd ymarferol a fyddai'n deillio o gael gwared ar y gofyniad gan fod modd olrhain unigolion mewn ffyrdd eraill gan gynnwys chwilio ar y we neu drwy'r cyfryngau cymdeithasol.

Roedd y rhai a oedd yn anghytuno â'r cynnig yn aml yn ymateb gan ddweud ei bod yn rhan bwysig o rôl aelod etholedig bod modd i'r bobl y mae'n ceisio'u cynrychioli'n gallu cysylltu ag ef neu â hi, ac y dylai mynediad ymestyn i'r cyfeiriad cartref. Fe wnaed cysylltiad rhwng hygyrchedd ac atebolrwydd; a barn na ddylai rhywun ddisgwyl gallu gwarchod ei hawl i breifatrwydd yn ormodol os yw'n dymuno dod yn rhan o fywyd cyhoeddus.


Mynegwyd pryderon hefyd ynghylch y canfyddiad bod ymgeiswyr yn cael eu 'parasiwtio i mewn' i seddi nad oedd ganddynt gysylltiad go iawn neu ystyrion gyda hwy.

Cyhoeddi datganiad ymgeisydd ar-lein

C32. A ydych yn cytuno y dylid gofyn i bob ymgeisydd ddarparu datganiad personol i'w gynnwys ar wefan a ddarperir gan yr awdurdod y maent yn gobeithio cael eu hethol iddo?

Fersiwn Hawdd ei Ddeall C12. Ydych chi'n meddwl bod ar bob ymgeisydd angen ysgrifennu beth y mae'n gredu ynddo a sut mae arnyn nhw eisiau i bethau ddigwydd? Yna rhoi hyn i gyd ar un wefan?

Fersiwn ar gyfer Pobl Ifanc C18. Ydych chi'n meddwl y dylai hi fod yn orfodol i bob ymgeisydd wneud datganiad personol?



Roedd cefnogaeth gref i'r cynnig hwn, yn y brif ddogfen (84%) a mwy byth mewn ymateb i'r fersiwn ar gyfer pobl ifanc (89%). Un rheswm allweddol a grybwyllwyd dros gefnogi'r cynnig oedd y byddai newid o'r fath yn gwella democratiaeth a dealltwriaeth pleidleiswyr am yr hyn yr oedd ymgeisydd yn sefyll drosto. Dywedodd nifer fath y dylai ymgeiswyr gael eu dwyn i gyfrif yn erbyn eu barn ddatganedig os ydynt yn cael eu hethol.

Nododd rhai ymatebwyr fod yr arfer o gyhoeddi datganiadau personol ymgeiswyr eisoes wedi ennill ei blwyf yn etholiadau comisiynwyr heddlu a throseddu (er y cwestiynwyr a oedd hyn o fudd i'r broses ddemocrataidd mewn gwirionedd).


Er mai gorau po fwyaf o wybodaeth oedd yn hysbys am ymgeisydd yn nhyb rhai, roedd rhai'n cefnogi'r cynnig gyda chafeatau, gan gynnwys pennu terfyn geiriau a fformat safonedig ar gyfer y datganiadau. O ran hygyrchedd, mynegwyd barn hefyd y dylai copïau papur fod ar gael i'r cyhoedd.

Er eu bod yn y lleiafrif, roedd y rhai a oedd yn anghytuno'n aml yn lleisio barn gref. Roedd llawer o'r rhain o'r farn y dylai datganiad fod yn opsiwn ac nid yn ofyniad.

Fodd bynnag, roedd pryderon cyffredin y gallai hyn osod baich gormodol ar staff cynghorau sydd eisoes yn gweithio hyd eithaf eu capasiti. Nid yw'n syndod bod y farn hon wedi cael ei mynegi'n arbennig gan Gynghorau Sir neu Fwrdeistref Sirol, gyda 67% o'r rhai a ymatebodd yn anghytuno â'r cynnig. Holwyd hefyd ynghylch yr agweddau technegol ar wirio gwybodaeth a ddarperir gan ymgeiswyr, a holwyd hefyd ai'r Swyddog Canlyniadau ddylai ysgwyddo'r baich hwn. Roedd nifer fach o ymatebwyr yn teimlo y dylai'r cyfleuster i gyhoeddi gwybodaeth gael ei letya'n ganolog gan Lywodraeth Cymru, gan na ddylai awdurdodau lleol gyhoeddi gwybodaeth sy'n gysylltiedig â phleidiau gwleidyddol. Gan dybio y byddai'r wybodaeth yn cael ei chyhoeddi gan awdurdodau lleol, fe gwestiynodd nifer y ymatebwyr y costau cysylltiedig.

Gwahardd Aelod Cynulliad rhag sefyll fel ymgeisydd cyngor

C33. A ydych yn cytuno na ddylid caniatáu i neb wasanaethu fel Aelod Cynulliad a chynghorydd ar yr un pryd?



O'r 659 o unigolion neu sefydliadau a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, roedd 82% yn cytuno na ddylid caniatáu i rywun wasanaethu fel Aelod Cynulliad a chynghorydd. Y prif reswm dros gefnogi'r cynnig hwn, rheswm a fynegwyd gan 69 o ymatebwyr, oedd nad yw'n bosibl cyflawni'r ddwy rôl ar yr un pryd mewn modd digonol, naill ai mewn perthynas â gofynion y rôl, neu'r ymrwymiad o ran amser sy'n ofynnol i berfformio'n effeithiol. Nododd 38 o'r ymatebwyr hefyd eu bod yn teimlo bod gwrthdaro buddiannau os yw rhywun wedi'i ethol i ddwy haen o lywodraeth, ac y byddai'n anodd i aelod deul gynrychioli'r ddwy haen heb rywfaint o duedd. Cododd nifer fach o ymatebwyr bryderon hefyd ynghylch priodoldeb cael cydnabyddiaeth ariannol am ddwy rôl etholedig.


O'r 17% a oedd yn teimlo y dylai rhywun gael dal y ddwy swydd, y prif reswm dros hyn oedd nad oedd tystiolaeth i awgrymu bod hyn yn achosi unrhyw broblem ar hyn o bryd nac y byddai'n rhwystr i ddemocratiaeth gan mai'r etholwyr ddylai benderfynu a yw ymgeisydd yn ffit i'w gwasanaethu. Nodwyd hefyd yn yr ymatebion ei bod yn dal yn bosibl i gynghorydd ddal unrhyw swydd gyflogedig lawn-amser arall hyd yn oed os yw'n cael ei atal rhag dod yn Aelod Cynulliad.

Y gofyn i ddatgan ymlyniad gwleidyddol

C34. A ydych yn cytuno y dylai fod yn ofynnol i ymgeiswyr ddatgelu unrhyw ymlyniad gwleidyddol sydd ganddynt?

Hawdd ei Ddeall C13. Ydych chi'n meddwl bod ar ymgeiswyr angen dweud pa blaid wleidyddol maen nhw'n sefyll drosto?

Fersiwn ar gyfer Pobl Ifanc C19. Ydych chi'n meddwl y dylai ymgeiswyr ddweud pa blaid wleidyddol y maen nhw'n perthyn iddi, os ydyn nhw'n aelod?



Roedd 682 o ymatebwyr i'r cwestiwn ymgynghori hwn. Roedd 93% yn cytuno y dylai fod yn ofynnol i ymgeiswyr ddatgelu ymlyniad wrth blaid wleidyddol, roedd 6% yn anghytuno ac nid oedd 1% arall yn cytuno nac yn anghytuno. Fe ymatebodd 185 o bobl ifanc i'r cwestiwn hwn yn yr ymgynghoriad ar gyfer Pobl Ifanc. Roedd 95% o blaid ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr ddatgan ymlyniad wrth blaid wleidyddol.


Roedd cytundeb mwyafrifol ar draws y categorïau o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn; fodd bynnag roedd hyn ychydig yn wahanol ar gyfer y categori a nodwyd fel aelodau o'r cyhoedd lle dewisodd 38 o gyfanswm o 556 o ymatebwyr yn y categori hwn anghytuno.

O'r 41 ymatebydd ar y cyfan a oedd yn anghytuno â'r cynnig, roedd nifer yn cynnwys sylwadau a allai ddynodi eu bod yn wir yn cefnogi'r dull megis gwneud y sylw "dylai, mae hyn yn rhywbeth anhepgor" neu "oni bai mai aelodaeth o blaid ydyw". Dynododd un ymatebydd arall gefnogaeth i'r tryloywder a fyddai'n deillio o ganlyniad i'r cynnig ond bod cefnogaeth i dryloywder yn amodol ar drafodaethau pellach. Fe wnaeth nifer o ymatebwyr gwestiynu sut y byddai'r cynnig yn cael ei orfodi a chanlyniadau peidio â datgan eu bod yn perthyn i blaid. Roedd awgrymiadau ynghylch canlyniadau'n cynnwys gwahardd a cheir mwy o ddadansoddiad o'r materion hyn yng nghwestiwn 35 sy'n dilyn.

Codwyd pwyntiau ychwanegol wrth ystyried a ddylid cymhwyso cyfnod o foratoriwm ar ôl etholiad lle na fyddai'n bosibl i ymgeisydd ymuno â phlaid wleidyddol os oedd wedi datgan mai ymgeisydd annibynnol ydoedd.

Er mwyn ei ddeall yn llawn, dylid darllen y crynodeb hwn ar y cyd â'r crynodeb o gwestiwn 35 sy'n gofyn am awgrymiadau pellach ynghylch y dystiolaeth a fyddai'n ddefnyddiol i helpu i bennu aelodaeth o blaid wleidyddol.

C35. Pa fath o dystiolaeth y dylai fod ei hangen i awgrymu bod ymlyniad gwleidyddol sydd heb ei ddatgelu?




Fe ymatebodd 211 o unigolion neu sefydliadau i'r cwestiwn hwn. Awgrymodd 60% o'r ymatebwyr hynny y dylai'r dystiolaeth fod ar ffurf rhestrau aelodaeth pleidiau gwleidyddol er na wnaeth pob un ohonynt nodi'n benodol sut y dylai'r wybodaeth honno gael ei darparu ac ar gyfer pwy. Fe awgrymodd nifer o ymatebwyr y dylid cyflwyno gofyniad ar bleidiau i ddarparu'r wybodaeth hon lle'r oedd yn berthnasol. Roedd nifer o ymatebwyr yn awgrymu y dylai tystiolaeth gael ei darparu gan bleidiau gwleidyddol ar gyfer Swyddogion Canlyniadau, gyda'r wybodaeth yn gallu cael ei defnyddio wedyn pe bai cwyn yn dod i law.

Awgrymodd 16% mai'r unigolion ddylai fod yn llwyr gyfrifol am benderfynu sut i ddangos tystiolaeth o'u hymlyniadau ac awgrymodd 8% y dylai datganiad o ymlyniad gan ymgeisydd fod yn ddigon. Roedd 7% yn meddwl y byddai arferion pleidleisio a pholisïau ymgeiswyr yn dystiolaeth ddefnyddiol ac roedd 5% yn meddwl y dylid defnyddio tystiolaeth o'r wasg a'r cyfryngau cymdeithasol. Fe ailddatganodd nifer o ymatebwyr y dylai'r polisi ymwneud yn benodol ag aelodaeth o blaid wleidyddol yn hytrach na hoffter cyffredinol o bolisïau plaid benodol.

Roedd awgrymiadau ynghylch tystiolaeth ddogfennol yn cynnwys rhif aelodaeth plaid, neu gyfraniad ariannol at blaid fel arwydd o ymlyniad. Roedd llai o gefnogaeth i ymchwiliad annibynnol llawn, tystiolaeth trydydd parti a hap-samplu ymgeiswyr annibynnol, gyda 2%, 1% a 0% yn y drefn honno yn cefnogi'r rhain. Roedd cefnogaeth i ddiarddel ymgeisydd y canfuwyd ei fod heb ddatgan ymlyniad wrth blaid wleidyddol.

Caniatáu i staff cyngor sefyll i'w hethol i'w cyngor eu hunain

C36. A ddylai unrhyw rai o staff y cyngor islaw'r lefel uwch fod yn gallu sefyll mewn etholiad i'w hawdurdod eu hunain?



Mynegwyd safbwyntiau cryf mewn ymateb i'r cwestiwn hwn, gyda mwyafrif bach o 61% o'r ymatebwyr yn cytuno y dylai staff cyngorau islaw'r lefel uwch allu sefyll mewn etholiad i'w hawdurdod eu hunain.


Y prif resymau a roddwyd o blaid y cynnig hwn oedd y dylai pawb fod yn rhydd i sefyll fel ymgeisydd ac na ddylid gwahaniaethu yn erbyn unrhyw un. Fodd bynnag, fe awgrymodd 31

o ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r cynnig y dylai Cymru ddilyn arfer yr Alban, sef ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr llwyddiannus ymddiswyddo o'u cyflogaeth ar ôl cael eu hethol. Fe wnaeth 17 o ymatebwyr a oedd yn cytuno awgrymu hefyd y dylai fod mecanwaith eglur i adnabod a/neu ddatgan unrhyw wrthdaro buddiannau a fyddai'n codi pe bai'r ymgeisydd yn cael ei ethol. Nododd nifer fach o ymatebwyr y gallai'r profiad y mae staff wedi'i gael wrth weithio i'r cyngor fod yn ased gwerthfawr iddynt pe baent yn cael eu hethol.

O'r rhai a oedd yn anghytuno â'r cynnig roedd cyfran fawr, 53 ar y cyfan, yn anghytuno oherwydd y gwrthdaro buddiannau a fyddai'n codi rhwng bod â chyflogaeth gyda chorff a chael eu hethol i'r un corff. Byddai rhai'n cytuno â'r cynnig pe bai'n ofynnol i ymgeiswyr llwyddiannus ymddiswyddo ar unwaith, ond roedd eraill yn teimlo y byddai trefn lywodraethu'r sefydliad yn cael ei pheryglu neu y byddai cyflogeion wedi bod â mynediad at wybodaeth freintiedig a fyddai'n rhoi anfanteision annheg iddynt fel ymgeisydd.

Mynegwyd pryderon hefyd gan nifer fach o ymatebwyr ynghylch trefniadau ar gyfer ymgyrchu a pha un a fyddai unrhyw absenoldeb a gymerir er mwyn ymgyrchu cyn yr etholiad yn cael ei gymryd ar draul y trethdalwr.

C37. A oes cyfiawnhad o hyd i gynghorau gadw rhestr o'r swyddi, heblaw am swyddi uwch-swyddogion, a ddylai fod dan gyfyngiadau gwleidyddol?



Dengys yr ystadegau y byddai'r mwyafrif o ymatebwyr yn gefnogol i gadw rhestr o swyddogion sydd dan gyfyngiadau gwleidyddol, gyda 62% o blaid a 28% yn erbyn, a 10% o'r ymatebwyr heb fynegi barn y naill ffordd na'r llall. Nid oedd llawer o bobl a atebodd y cwestiwn hwn yn ymwybodol o ystyr 'swydd dan gyfyngiadau gwleidyddol', neu nid oeddent yn llwyr ymwybodol o ddiben cadw rhestr o'r fath, a chafodd hyn ei adlewyrchu mewn nifer o'r sylwadau a gafwyd ac fe allai fod wedi cyfrannu at nifer o'r ymatebion 'y naill na'r llall'.

O'r rhai a oedd o blaid, y safbwyntiau a fynegwyd oedd bod hyn yn bwysig er mwyn sicrhau uniondeb y cyngor a'i staff a hefyd er mwyn cynnal ymddiriedaeth a thryloywder yn y sefydliad. Fe nododd rhai ymatebwyr hefyd y byddai cynnal rhestr yn sicrhau na fyddai unrhyw wrthdaro buddiannau yn datblygu ar gyfer staff. Gall fod yn werth nodi bod 74% o'r


cynghorau sir a ymatebodd i'r cwestiwn hwn a 67% o'r aelodau etholedig o blaid cadw'r rhestr.

O'r 28% a oedd yn anghytuno â'r rhestr, roedd eu rhesymau'n amrywiol. Roedd rhai'n anghytuno am eu bod yn teimlo y dylai'r holl swyddi mewn llywodraeth leol fod dan gyfyngiadau gwleidyddol ac felly na fyddai angen rhestr. Er eu bod yn dal i anghytuno â'r cynnig mewn egwyddor, roedd eraill yn teimlo y dylid diddymu'r rhestr am fod atal pobl rhag gweithredu'n wleidyddol yn wrth-ddemocrataidd. Nododd un ymatebydd na ddylai fod angen y rhestr gan y byddai unrhyw gamymddwyn gwleidyddol wedi'i gynnwys yng nghod ymddygiad y cyngor ar gyfer staff.

6. Swyddogion Canlyniadau

Rhoi diwedd ar hawl swyddogion canlyniadau i ffi bersonol

C38. A ydych yn cytuno y dylai rôl y prif weithredwr statudol gynnwys rôl swyddog canlyniadau?




Er bod y mwyafrif o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn o blaid cynnwys rôl y Swyddog Canlyniadau o fewn rôl Prif Weithredwr y cyngor, gyda 59% o blaid a 36% yn erbyn, roedd safbwyntiau cymysg o fewn yr ymatebion. Roedd nifer yn teimlo y dylai'r cyngor ei hun gadw disgresiwn lleol i benderfynu pwy oedd yr unigolyn mwyaf priodol ar gyfer y swydd. Roedd un ar ddeg o ymatebwyr yn teimlo y dylid caniatáu i unrhyw uwch swyddog yn y cyngor ymgymryd â'r rôl, tra bo deg ymatebydd o'r farn y dylai'r Swyddog Canlyniadau fod yn rhywun sy'n gwbl annibynnol ar y cyngor a'r pleidiau gwleidyddol. Roedd eraill yn teimlo bod rôl y Swyddog Canlyniadau yn rôl ar wahân i rôl y prif weithredwr, neu unrhyw aelod arall o staff y cyngor o ran hynny, ar hyn o bryd, bod hyn yn cynnig yr annibyniaeth sy'n ofynnol ac na ddylid peryglu hyn trwy wneud y rôl yn rhan o rôl y prif weithredwr. Roedd yn farn a oedd yn cael ei harddel yn gryf bod annibyniaeth yn allweddol i rôl y Swyddog Canlyniadau.

Nododd y rhai a oedd o blaid y cynnig hwn y byddai'n cynnig mwy o werth am arian i lywodraeth leol gan fod Prif Weithredwyr eisoes yn cael cydnabyddiaeth ariannol dda a'u bod yn cael cyflog uwch nag unrhyw aelodau eraill o staff cynghorau, ac felly y dylai'r

dyletswyddau ychwanegol fod yn rhan o'u rôl hwy. Roedd rhai'n dadlau na fyddai angen am unrhyw gydnabyddiaeth ariannol ychwanegol sy'n gysylltiedig â rôl y Swyddog Canlyniadau yn unig pe bai'r rolau'n cael eu cyfuno. Fe wnaeth nifer fach o'r ymatebwyr a oedd o blaid y cynnig hwn fynegi'r farn y dylid cadw gallu'r Swyddog Canlyniadau i ddirprwyo ei swyddogaethau lle y bo angen.

C39. A ydych yn cytuno y dylai unrhyw ychwanegiad at gyflog i gydnabod dyletswyddau swyddog canlyniadau fod yn fater i'r awdurdod lleol benderfynu arno?



Fe ymatebodd 617 o unigolion neu sefydliadau i'r cwestiwn hwn, ac roedd y canlyniad yn agos iawn gyda 49% o blaid trefn lle mae cyflogau swyddogion canlyniadau'n fater i'r awdurdod lleol, ond 48% yn erbyn a 3% heb fynegi'r naill farn na'r llall.

Ar ôl ystyried yr ymatebion agored ysgrifenedig i'r cwestiwn hwn, efallai na ellir cymryd y ffigyrau uchod ar yr wyneb, ac y gellir cael mwy o werth trwy ystyried y sylwadau a wnaed gan ymatebwyr. Ni wnaeth nifer ateb y cwestiwn a ofynnwyd yn uniongyrchol, ond yn hytrach fe wnaethant rannu eu barn ynglŷn â beth fyddai'r system orau ar gyfer rhoi cydnabyddiaeth ariannol i Swyddogion Canlyniadau.

O'r rhai a oedd o blaid y cynnig y dylai cyflog ychwanegol am gyflawni dyletswyddau swyddog canlyniadau fod yn fater i awdurdodau lleol, mynegwyd safbwyntiau y dylai'r symiau a fydd yn cael eu talu gael eu datgan yn gyhoeddus. Nodwyd hefyd y gellid gwneud hyn gan ddefnyddio fformwla i sicrhau y rhoddir cyfrif am amrywiad rhwng gwahanol awdurdodau, neu y dylid gorfodi rhyw fath o gap i atal awdurdodau rhag talu symiau gormodol.


O'r rhai a fynegodd anghytundeb â'r cwestiwn a ofynnwyd, roedd 67 unigolyn yn teimlo y dylai cydnabyddiaeth ariannol i Swyddogion Canlyniadau gael ei phennu'n genedlaethol, gyda 23 arall yn awgrymu y dylai Llywodraeth Cymru, y Cynulliad, neu Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol chwarae rhyw ran yn y broses o bennu'r gydnabyddiaeth ariannol honno. Roedd 21 o ymatebwyr yn anghytuno am eu bod yn teimlo na ddylid talu unrhyw gydnabyddiaeth ariannol ychwanegol i swyddogion canlyniadau, a dywedodd 19 arall nad oedd angen cydnabyddiaeth ariannol ychwanegol os oedd rôl

swyddog canlyniadau'n mynd i fod yn un o swyddogaethau statudol y prif weithredwr fel a nodir yng nghwestiwn 38.

Roedd nifer fach o ymatebwyr, cynghorau sir neu fwrdeistref sirol yn bennaf, yn teimlo bod y trefniadau presennol yn ddigonol ac nad oedd angen unrhyw newid. Nodwyd yn yr ymatebion hyn hefyd nad oedd rhai Swyddogion Canlyniadau yn cymryd ffi bersonol am redeg etholiadau llywodraeth leol ar hyn o bryd.

Symleiddio'r system ffioedd a thaliadau

C40. A ddylai Llywodraeth Cymru symud at system o gyfrifo costau etholiadau Cynulliad yn ôl fformiwla y cytunwyd arni, wedi'i seilio ar faint yr etholaeth?




Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr, sef 73% (430 o ymatebion), o blaid y cynnig hwn. Roedd 15 o'r 430 yn teimlo y dylai'r fformwla fod wedi'i bwysoli mewn rhyw ffordd i ystyried natur wledig rhai etholaethau. Nododd nifer fach o ymatebwyr hefyd y dylai'r symiau a gaiff eu talu dan y fformwla gael eu cyhoeddi er mwyn tryloywder. Roedd rhai'n cefnogi'r syniad o gyflwyno tâl sy'n seiliedig ar fformwla, ond yn meddwl y dylai gael ei gyfrifo yn ôl nifer y rhai sy'n pleidleisio yn yr etholiad yn hytrach na'r niferoedd sy'n rhan o'r etholaeth.

O'r 123 o ymatebwyr a oedd yn gwrthwynebu datblygu fformwla, dywedodd 34 fod maint ffisegol etholaeth, neu ei natur wledig, yn cael effaith sylweddol ar gostau etholiadau a, gan hynny, y byddai fformwla syml sy'n seiliedig ar faint yr etholaeth yn golygu bod rhai ardaloedd yn cael eu tanariannu. Roedd eraill a oedd yn gwrthwynebu'n teimlo bod y system bresennol yn ddigonol ac nad oedd angen ei newid, neu y dylai fod ffi benodedig am gostau etholiadau yn hytrach na chyfrifiad sy'n seiliedig ar fformwla.

7. Pleidlais i Garcharorion

C41. A ddylid caniatáu i garcharorion Cymreig gofrestru i bleidleisio a chymryd rhan mewn etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru? Os felly, a ddylid cyfyngu hyn i rai sydd wedi'u dedfrydu i lai na deuddeg mis, pedair blynedd, neu ddedfryd o unrhyw hyd?



Roedd yr ymateb i'r cwestiwn hwn yn gyfartal iawn, gyda 50% o blaid caniatáu i garcharorion Cymreig bleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol, 47% yn anghytuno a 3% heb fynegi barn y naill ffordd na'r llall.

O'r rhai a oedd yn cefnogi'r syniad, mynegodd y mwyafrif farn bod carcharorion, er gwaethaf eu carchariad a'u rhyddid cyfyngedig, yn dal yn ddinasyddion ac, yn unol â hynny, na ddylent gollu eu 'hawl ddynol' i bleidleisio. I ategu hyn, fe gyfeiriodd rhai at ddyfarniad Llys Hawliau Dynol Ewrop ar bleidlais i garcharorion. Fe wnaeth llawer ohonynt hefyd gyflwyno'r achos dros ganiatáu i garcharorion bleidleisio fel rhan o'u proses adsefydlu yn barod i ailymuno â chymdeithas ehangach. Fodd bynnag, mynegwyd pryderon wrth ystyried a fyddai carcharorion benywaidd o Gymru dan anfantais gan nad oes carchardai i fenywod yng Nghymru ar hyn o bryd. Roedd rhai hefyd yn pryderu y gallai carcharorion gwrywaidd o Gymru sy'n bwrw dedfrydau yn Lloegr fod dan anfantais hefyd.


Mynegodd nifer fawr farn ynglŷn â'r cwestiwn a ddylai hyd y ddedfryd ddylanwadu o gwbl ar yr hawl i bleidleisio. Roedd y mwyafrif o'r rhain, 94 o ymatebwyr, o'r farn y dylai fod gan yr holl garcharorion bleidlais ni waeth beth fo hyd eu dedfryd. Roedd 38 o ymatebwyr o'r farn mai *dim ond* y rhai sy'n bwrw dedfryd o 12 mis neu lai ddylai fod â phleidlais; awgrymodd 19 ddedfryd o bedair blynedd neu lai; ac awgrymodd 16 o ymatebwyr y dylai carcharorion fod â phleidlais dim ond os oedd eu dyddiad rhyddhau o fewn cyfnod y corff y byddent yn ethol iddo. Awgrymodd 10 o ymatebwyr na ddylai pleidlais i garcharorion fod yn gysylltiedig â hyd y ddedfryd, ond yn hytrach â natur neu ddifrifoldeb y trosedd a gyflawnwyd, gydag awgrymiadau na ddylai'r rhai a gafwyd yn euog o droseddau difrifol, megis gweithredoedd terfysgol, llofruddiaeth neu droseddau rhyw, byth gael pleidlais.

Y prif reswm a nodwyd gan y rhai a oedd yn gwrthwynebu cynigion i roi pleidlais i garcharorion oedd bod carcharorion yn awtomatig yn colli eu hawl i bleidleisio unwaith yr oeddent wedi'u cael yn euog o drosedd yn erbyn cymdeithas. Roedd yr union weithred o

fwrw dedfrydau o garchar yn adlewyrchu'r ffaith eu bod wedi cael eu tynnu allan o gymdeithas a'u bod, yn unol â hynny, wedi colli'r hawl i gymryd rhan yn ei phrosesau, gan gynnwys prosesau democrataidd.

Fe wnaeth nifer fach o ymatebwyr fynegi pryderon hefyd ynghylch cymhlethdodau canfyddedig rhedeg etholiad mewn carchardai, neu'r beichiau gweinyddol sy'n gysylltiedig â gweinyddu pleidleisiau drwy'r post.

C42. Drwy ba ddull y dylai carcharorion fwrw pleidlais?




Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn gymharol uniongyrchol gydag ymatebwyr yn cynnig safbwyntiau clir o ran pa ddulliau pleidleisio oedd fwyaf priodol ar gyfer carcharorion yn eu tyb hwy.

Mynegwyd y gefnogaeth gryfaf (43%) ymhlith ymatebwyr o blaid pleidleisio drwy'r post fel y dull mwyaf priodol. Pleidleisio electronig oedd yr ail awgrym mynychaf, gyda 18% yn gefnogol i hynny. Roedd llawer o ymatebwyr yn teimlo y byddai'r ddau ddull yma'n briodol, ond y gallai un fod yn fwy cyfleus na'r llall.

Roedd 17% o'r ymatebwyr o blaid sefydlu bythau pleidleisio symudol mewn carchardai, ond holodd rhai pwy ddylai fod yn gyfrifol am hyn a'i reoli: staff carchardai ynteu staff swyddogion canlyniadau.

Awgrymodd nifer fach iawn o ymatebwyr y byddai pleidlais trwy ddirprwy'n briodol ac roedd un unigolyn hefyd o'r farn, pe bai carcharorion yn cael pleidlais, y byddai angen ymgynghori ymhellach ar y dull y byddent yn ei ddefnyddio i bleidleisio.

C43. Ym mha gyfeiriad y dylai carcharorion gael eu cofrestru i bleidleisio?



Fel gydag ymatebion i C.42, fe gynigiodd ymatebwyr safbwyntiau clir o ran ble y dylai carcharorion gael eu cofrestru i bleidleisio. Roedd y mwyafrif, sef 41%, o blaid cofrestru i bleidleisio yn seiliedig ar gyfeiriad cartref carcharor. Nododd rhai ymatebwyr mai defnyddio'r cyfeiriad cartref yw'r dull presennol a gymhwysir i alluogi pleidleiswyr sy'n aelodau o'r lluoedd arfog i gofrestru. (Yn eu sylwadau, rhoddodd 30 o ymatebwyr eu cyfeiriad cartref hwy eu hunain mewn ymateb i'r cwestiwn. Rydym wedi dileu'r manylion hyn ac wedi cymryd bod hyn yn dynodi bod ymatebwyr yn awgrymu y dylai carcharorion gofrestru yn eu cyfeiriad cartref eu hunain.)

Awgrymodd tua thraean o'r ymatebwyr y dylid defnyddio cyfeiriad y carchar, yn enwedig ar gyfer y carcharorion hynny sy'n bwrw dedfrydau 'maith' neu sydd heb unrhyw gyfeiriad cartref. Fodd bynnag, cododd rhai bryderon ynghylch yr effaith y gallai hyn ei chael ar yr etholaeth yn y ward yr oedd y carchar wedi'i leoli ynddi: *"Byddai mynd ati'n syml i'w cofrestru yng nghyfeiriad y carchar yn annymunol – byddai carchar arbennig o fawr yn arwain at greu ward carchar mewn ffaith."*


Dewisodd 13% o'r ymatebwyr ymateb i'r cwestiwn hwn trwy ailddatgan ymhellach eu gwrthwynebiad i roi pleidlais i garcharorion.

Roedd gweddill yr ymatebwyr yn gefnogol i gofrestru carcharorion mewn cyfeiriad neu mewn ardal y mae ganddynt ryw gysylltiad ag ef/â hi. Awgrymwyd y gallai hwn fod yn gyfeiriad 'perthynas agosaf', neu'r ardal leol yr oedd carcharor yn byw ynddi, neu yr arferai fod yn etholwr ynddi, cyn cael ei garcharu. Nid oedd rhaid iddo fod yn gyfeiriad cartref penodedig yn yr achos hwn. Mae darpariaethau tebyg yn bodoli ar gyfer pobl ddigartref sy'n gallu datgan cysylltiad ag ardal leol i'w galluogi i gofrestru i bleidleisio.

Y Gymraeg

C44. Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai diwygio etholiadol yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.


Pa effeithiau rydych chi'n credu y byddai? Sut y gellid cynyddu effeithiau positif a lliniaru effeithiau negyddol?



Roedd y mwyafrif o'r 53 ymateb i'r cwestiwn hwn yn nodi na fyddai'r diwygiad yn effeithio ar y Gymraeg – boed yn gadarnhaol neu'n negyddol. Fe amlygodd nifer yr angen i barhau i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn gyfartal â'r Saesneg, fel sy'n ofynnol mewn deddfwriaeth. O'r ychydig iawn o sylwadau a oedd yn rhagweld effaith gadarnhaol neu negyddol ar y Gymraeg, amlygodd un y byddai angen mwy o siaradwyr Cymraeg pe bai niferoedd uwch o orsafoedd pleidleisio. Galwodd pedwar ymatebydd arall am swyddogion Cymraeg ym mhob gorsaf bleidleisio. Gwnaeth un arall y sylw y byddai cyflwyno systemau pleidleisio electronig a chofrestru ar-lein yn gwella'r opsiynau ar gyfer cyflwyno gwybodaeth yn ddwyieithog.

Roedd ymateb llawn gan Gomisiynydd y Gymraeg yn amlygu nid yn gymaint yr agweddau ar y dulliau arfaethedig sy'n ymwneud â'r Gymraeg, ond yn hytrach y cyfyngiadau o ran hyrwyddo'r Gymraeg ar hyn o bryd, gan amlygu adroddiad yr oedd wedi'i gyhoeddi'n ddiweddar ar etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu a gynhaliwyd yn 2016, a oedd yn dilyn adroddiad a roddodd ystyriaeth i Etholiad Cyffredinol 2015.

C45. Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut rydych chi'n credu y gall yr opsiynau arfaethedig gael ei lunio neu ei addasu er mwyn cael effeithiau positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.



Mewn ymateb i'r cwestiwn hwn, darparodd 18 o ymatebwyr feddyliau ynglŷn â sut y gellid diwygio'r cynigion i hyrwyddo'r Gymraeg.

O'r rhain, dywedodd chwech y dylai pleidleiswyr allu dewis pa iaith oedd yn well ganddynt a chyfeiriodd pump at bwysigrwydd ymgysylltu â Chomisiynydd y Gymraeg a Grwpiau Iaith Gymraeg o ran gwella prosesau.

Yn unol â C.44, roedd pedwar sylw'n nodi y dylai fod siaradwyr Cymraeg ym mhob gorsaf pleidleisio a/neu'n amlygu pwysigrwydd defnyddio Cymraeg clir a chywir er mwyn cynnal safonau. Awgrymodd un ymatebydd y dylai deddfwriaeth mewn perthynas â'r Gymraeg gael ei hestyn fel ei bod yn cynnwys etholiadau.

Arall

C46. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny:

Fe ysgogodd y cwestiwn agored, olaf hwn 28 o ymatebion a oedd yn aml yn amrywiol, gyda sawl un yn ailddatgan sylwadau yr oeddent wedi'u gwneud mewn ymateb i gwestiynau blaenorol. O'r rhain, fe wnaeth pedwar sylwadau pellach o blaid Pleidleisiau Trosglwyddadwy Sengl. Fe ailddatganodd ymatebydd arall ei achos o blaid pleidleisio gorfodol, gan awgrymu hefyd y dylid ychwanegu categori 'dim un o'r uchod' ar yr un pryd, gan alluogi pleidleiswyr i ymatal yn weithredol.

Fe wnaeth dau ymatebydd amlygu unwaith eto eu bod o blaid symud yn gynyddol tuag at ddulliau electronig. Roedd galwadau i gynyddu amrywiaeth ymgeiswyr ac i ddefnyddio dulliau i gynyddu nifer y rhai sy'n cymryd rhan.

Roedd nifer o'r sylwadau'n ymwneud â sut orau y gallai'r cynigion a gyflwynwyd gael eu rhoi ar waith. Roedd nifer yn amlygu'r angen i sicrhau nad oedd pleidleiswyr yn cael eu drysu tra bo newidiadau'n cael eu gwneud a'r risg y ceir anghysondeb yng Nghymru ac â gweddill y DU. Fe wnaeth eraill bwysleisio'r angen i sicrhau bod asesiadau priodol o'r effaith yn cael eu cynnal, gan gynnwys asesu'r risg posibl o dwyll ac asesu'r cyllid sy'n ofynnol i roi cymorth i roi'r cynnig ar waith. Dywedodd un na ddylid ystyried y cynigion ar wahân i'w gilydd gan eu bod wedi'u cydgysylltu â'i gilydd, a ddylai gael ei adlewyrchu wrth werthuso'r modd y cânt eu cyflwyno a'u rhoi ar waith.

Galwodd Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod unrhyw newidiadau mewn deddfwriaeth etholiadau'n cael eu rhoi mewn grym ymhell cyn yr etholiadau yr effeithir arnynt. Fe gynigiodd y Gymdeithas bod isafswm o 12 mis yn cael ei roi ar gyfer unrhyw gynigion i newid trefniadau cofrestru etholiadol, cyn bod y ddarpariaeth/darpariaethau newydd yn dod i rym.

Cododd dau ymatebydd bryderon ynghylch dylanwad undebau, yn enwedig ar fyfyrwyr ac oedolion ifainc eraill. Awgrymodd un y byddai undebau'n fwy hygred pe bai ganddynt bolisi optio i mewn ar gyfer yr ardoll wleidyddol yn hytrach na darpariaeth optio allan (yr oedd yr ymatebydd yn mynnu ei bod yn anodd dod o hyd iddi) neu pe baent yn cynnig dewis o ran ble ddylai'r ardoll fynd.

Cafodd nifer o faterion penodol eraill eu hawgrymu gan ymatebwyr unigol:

- Yr angen i adolygu'r broses ar gyfer dyrannu seddi i wardiau yn yr awdurdodau hynny sy'n cynnwys wardiau â mwy nag un aelod. Pwysleisiodd yr ymatebydd bwysigrwydd hyn gan fod egwyddor cynrychiolaeth gyfartal yn cael ei thorri oni bai bod seddi'n cael eu hailddosbarthu i adlewyrchu newidiadau yn nosbarthiad yr etholwyr o fewn awdurdod.
- Galluogi pobl ifanc mewn llety diogel i bleidleisio
- Defnyddio cardiau adnabod â ffotograff neu ddull o adnabod olion bysedd neu lygaid/iris
- Gostyngiad yn nifer y cynghorau a'r cynghorwyr
- Yr holl ymgeiswyr mewn etholiadau i gael copi'n awtomatig o restr o ychwanegiadau hwyr at y gofrestr etholiadol a rhestr o'r pleidleisiau drwy'r post heb orfod gofyn am y rhain.
- Cyflwyno gofyniad bod ymgeiswyr yn datgelu unrhyw euogfarnau sydd wedi'u disbyddu wrth sefyll mewn etholiad.
- Pa un a oes arnom angen 10 enwebai o hyd ar gyfer ymgeiswyr mewn etholiadau llywodraeth leol
- Y Comisiwn Etholiadol i ddatblygu templedi dwyieithog sy'n gywir ac yn gyfoes yn gyfreithiol, y gall yr holl awdurdodau lleol eu defnyddio â hyder. Byddai hyn yn rhoi cydraddoldeb o ran defnydd iaith ledled Cymru ac yn ysgafnhau'r baich gweinyddol ar awdurdodau lleol.
- Gobeithio y gellir bwrw golwg fanylach ar amgylchiadau penodol, ac arbennig yn aml iawn, etholiadau cynghorau tref a chymuned yn y dyfodol agos.
- Cyllid i fod ar gael i gynnal ymgyrchoedd pleidleisio mewn ieithoedd sy'n adlewyrchu demograffeg ardaloedd lle mae cyfran fawr o'r boblogaeth yn siarad iaith heblaw

Cymraeg neu Saesneg fel iaith gyntaf er mwyn annog pleidleiswyr o'r cymunedau hyn.

5. Y Camau Nesaf

5.1. Cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus ddatganiad i'r Cynulliad ar 30 Ionawr 2018 sydd yn Atodiad 1.

5.2. Bydd cynigion deddfwriaethol mewn perthynas ag etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru'n cael eu cynnwys mewn Bil Llywodraeth Leol y bwriedir iddo gael ei gyflwyno gerbron y Cynulliad yn ddiweddarach eleni.

6. Rhestr o'r Ymatebwyr

(Richard) Stephen Phillips
Adrian Kendon
Adrian Price
ALACE
Albert Owen AS
Alex Hadley
Alpay Torgut
Andrew Capel
Andy Fryer
Cyngor Sir Ynys Môn
Arnold Woolley
Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol
Averil Rees
Bethany Walpole-Wroe
Bevan Stephens
Plaid Lafur Brycheiniog a Sir Faesyfed
Cyngor Tref Aberhonddu
Plaid Lafur Butetown
Grŵp Llafur CBS Caerffili
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Plaid Lafur Etholaeth Gorllewin Caerdydd
Cyngor Sir Gaerfyrddin
Carol Ivory
Caroline Adams
Catriona Waldron
Cyngor Sir Ceredigion
Plant yng Nghymru
Comisiynydd Plant Cymru
Christine Roach
Christopher Holley
Christopher W Drew
Dinas a Sir Caerdydd
Dinas a Sir Abertawe
Clive Terence Griffiths
Y Cyng. Emma Sandrey
Y Cyng. Les George
Y Cyng. Lesley Walton
Y Cyng. Mark Child
Colin
Cyngor Cymuned Tregolwyn
Comisiynydd y Gymraeg
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Y Cyngorydd Peter Jones
Cyngor Cymuned Ciliau Aeron
Cyngor Cymuned Llanengan
Cyngor Gwynedd
Cyngor Tref Aberystwyth
Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru
D. Marc Rogers
Dafydd Jones
Dan Ward
Daniel Lawrence
David Anstee
David Eric Stanley
David Kakande
David Lewis
David Roberts
Democracy Club
Cyngor Sir Ddinbych
Denis Mollison
Diane Madeley
Dilwar Ali
Dr Ashley Wood
Dr Chris Culnane a Dr Vanessa Teague
Dr Chris Finlayson
Dr Colin Swatridge
Dr Toby James
Duncan Stewart

Dylan Evans
Edna Irene Palmer
Edward Dawson
Edward Reid
Y Comisiwn Etholiadol
Y Gymdeithas Diwygio Etholiadol
Elliot Bateman
Emma Evans
Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau
Dynol
Erik Williams
Ewan Goodjohn
Ffion Pritchard-Johnson
Fleur Lewis
Cyngor Sir y Fflint
Gareth Davies
Gareth Evans
Gareth Kitchen
Garry Telford
Geldards
Cyngor Cymuned Gelligaer
George Weston
Georgina
Girlguiding
Giselle Evans
GMB, Undeb Cyffredinol Prydain
Godfrey Northam
Greg Whitfield
GWYN WILLIAMS
Harry Hayfield
Helen Jones
Henry Ashurst
Cyngor Cymuned Hirwaun a Phenderyn
Hugh Jones
Hugh Jordan

Huw Evans
Huw Llewelyn Jones
Huw Williams
Ian Graham
Ian Johnson
Ian Robinson
Y Sefydliad Materion Cymreig
Ivor Thomas Rees
Jack Price
James Ball
James Dowden
James Downey
Jean Holloway
Jeff Bowles
Jeffrey Baxter
Joan Thomas
Joe Feely
John A Calder
John Crocker
John David Wilkins
John Ellis
John Ivor Jones
John Matthews
John Sexton
John Smith
John Steedman
John Upright
Jon Lodge
Josh Morris
Joshua Osborne
Judith Marquand
Julia Goode
Julie Owens
Karl White
Keith Best

Keith Roberts	Mel ab Owain
Kelvin Stockwell	Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Ken Barker	Michael Anthony Harrison
KEN PRYDDERCH	Michael Boyle
Kenneth MacArthur	Michael Havard
Kevin Norman	Michael Male
Kirsty McGovern	Michael Williams
Knackered	Mick Antoniw AC
Lawyers in Local Government	Mike Digwood
Lee Robson	Mike Edwards
Leon Ward	MM JJaammeess
Lis Puw	Cyngor Sir Fynwy
Lisa Parkinson	Moyà Russ
Cyngor Cymuned Llandochau	Mr Aidan Moyles
Cyngor Cymuned Llandrinio ac Arddleen	Mr Andrew J Abbott
Cyngor Cymuned Llandysilio	Mr Davies
Cyngor Gwledig Llanelli	Mr Ian Cox
Cyngor Cymuned Llansantffraid	Mr Wayne Bartlett
Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol	Mrs V Jones
Cymru	Neale Atkinson
Luke Lincoln	Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port
Lyn Hudson	Talbot
M Cox	Neil McEvoy AC
Make Votes Matter	Neil Moffatt
Malcolm Cousins	Neil Reed
Marc Noel	Nerina Vaughan
Marc Thomas	Cyngor Cymuned y Drenewydd a
Marcus Van Doorn	Llanllwchaearn
Marjorie Rickerby	Nicholas Tatam
Mark Anthony	Nick Barnett
Mark Hathway	Nick Canever
Mark Whitcutt	Comisiynydd Heddlu a Throsedd
Martin Bentley	Gogledd Cymru
Martin Evans	NUS Wales
Martin James Hughes	Un Llais Cymru

Owen James Yarranton Brown
P J Ellis
Patricia Ashcroft
Patricia McCarthy
Patrick Mills
Paul Barrett-Brown
Paul Hoskins
Paul Kinnersley
Cyngor Sir Penfro
Cyngor Cymuned Pentyrch
Pete Dunn
Peter Alston
Peter Berry
Peter Fanner
Peter Graham-Woolard
Peter Rowlands
Peter Sturgess
Peter Varley
Peter Weston
Phil Bale
Phil Raybould
Philip Bowyer
Philip Rapier
Philip Thompson
Philip Widdall
Philippa Bevan
Cyngor Tref Pontardawe
Cyngor Tref Pontarddulais
Cyngor Sir Powys
Yr Eglwys Bresbyteraidd yng Nghymru
Yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai
Rachel
Rachel Seabrook
Ray Hall
Rhodri Thomas

Grŵp Plaid Cymru Cyngor Bwrdeistref
Sirol Rhondda Cynon Taf
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon
Taf
Rhys Taylor
Richard Carpenter
Richard Carr
Richard Lewis
Richard Lung
Richard Mainon
Richard Williams
Robert Jones
Robert Jones a Gregory Davies
Robin Rea
Roger Knight
Rolant Ellis
Ross
Ryan Smith
S Emlyn-Jones
Sam Parry
Sam Smith (D S Smith)
Sam Southall
Sam Trask
Samuel
Samuel Abe Williams
Sarah Eva
Scytl
Simon Jones
Smartmatic
SOLACE Wales
Plaid Lafur Cangen De Meirionydd
Steve Bradwick
Y Gymdeithas Strôc
Stuart Fox
Sue Butler

Cyngor Abertawe – Grŵp y Blaid Lafur
Sylvia Brunson
Teresa Lewis
Thomas Gray
Tony Cooke
Tony Smith
Tony Walker
Grŵp Llafur CBS Torfaen
Unsain
Plaid Lafur Etholaeth Bro Morgannwg
Cabinet Cyngor Bro Morgannwg
Deoniaeth Cymru
Plaid Werdd Cymru

Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg
Gymdeithasol ac Economaidd Cymru
Wayne Morgan
Webroots
Plaid Lafur Cymru
William Baldwin
William Mcsparron
CLILC
Plaid Cydraddoldeb Menywod: Cangen
Caerdydd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Wyc Tippins
Youth Cymru

Atodiad 1 – Datganiad Ysgrifennydd y Cabinet ar Ddiwygio Etholiadol

DATGANIAD GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL Diwygio Trefniadau Etholiadol Llywodraeth Leol

DYDDIAD 30 Ionawr 2018

GAN Alun Davies AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus

Llywydd, fe hoffwn i achub ar y cyfle hwn y prynhawn yma i hysbysu'r Aelodau o'm cynigion ynglŷn â gwneud y diwygiadau o ran trefniadau etholiadau llywodraeth leol, gan gynnwys pwy sy'n cael pleidleisio, sut maen nhw'n cael eu cofrestru, sut y mae pobl yn pleidleisio a phwy all sefyll ar gyfer etholiad.

Mae fy natganiad heddiw yn canolbwyntio ar y trefniadau ar gyfer etholiadau lleol, ond rwy'n ymwybodol, Llywydd, o'r gwaith sydd gennych chi ar y gweill ynglŷn â diwygio'r Cynulliad hwn ac y bydd yr un trefniadau i raddau helaeth iawn hefyd yn berthnasol yn y dyfodol i etholiadau Seneddol Cymru.

Bydd cynigion deddfwriaethol sy'n ymwneud ag etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru yn cael eu cynnwys mewn Bil llywodraeth leol, y bwriadaf ei gyflwyno yn ddiweddarach eleni. Mae'r cynigion yn gydnaws ag ymgynghoriad yr hydref diwethaf, a byddaf yn cyhoeddi canlyniadau manwl hwnnw cyn bo hir.

Mae democratiaeth leol yn ymwneud â chyfranogiad. Rydym ni eisiau cynyddu'r niferoedd sydd wedi cofrestru yn etholwyr, ei gwneud hi'n haws i bobl fwrw eu pleidleisiau a rhoi'r hawl i fwy o bobl gymryd rhan.

Rydym ni wedi gweld yn y blynyddoedd diwethaf sut mae'r ymgyrch i gael pobl i gofrestru yn unigol—a gafodd ei rhuthro ac nad oedd digon o baratoi ar ei chyfer, rwy'n credu—wedi arwain at rai grwpiau o bobl yn diflannu oddi ar y gofrestr. Rwy'n bwriadu gwrthweithio hynny yn rhannol trwy alluogi ac annog swyddogion cofrestru etholiadol i ychwanegu pobl yn awtomatig at y gofrestr os ydyn nhw'n fodlon gyda'r wybodaeth sydd ganddyn nhw. Dylai hynny weithio yn arbennig o dda gyda myfyrwyr ysgol lle mae gan awdurdodau lleol eu manylion eisoes ac angen gwneud dim mwy na throsglwyddo'r rhain i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol.

Byddai unrhyw un sydd wedi ei gofrestru'n awtomatig yn cael eu hychwanegu at y gofrestr ddiwygiedig, nid yr un sydd ar gael i sefydliadau marchnata, a byddid yn cysylltu â nhw i gadarnhau eu dewisiadau ac a ydyn nhw'n hapus i fod ar y gofrestr lawn neu, yn achos rhywun na ddylid datgelu eu hunaniaeth, i gael eu cofrestru'n ddiennw.

Rwyf hefyd yn bwriadu creu cofrestr electronig Cymru gyfan, gan gyfuno'r cofrestrau sy'n bodoli ym mhob sir gyda diwyg cyffredin, gan wneud y gwaith o reoli cofrestrau yn fwy effeithlon a'i gwneud hi'n haws hollti cofrestrau ar gyfer etholiadau sy'n croesi ffiniau sirol. Mae pleidleisio mewn etholiadau yn y wlad hon yn digwydd fwy neu lai yn yr un ffordd ers y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae'r rhan fwyaf ohonom ni'n mynd i orsaf bleidleisio ac yn taro croes ar ddarn o bapur gan ddefnyddio pensil plwm cydnerth ar ddarn o liny. Mae llawer o bobl yn hoffi hyn mewn gwirionedd, oherwydd mae hi'n gryn ddiwyddiad, yn gyfle i

siarad â'r cymdogion, ac, yn gyffredinol, mae pobl yn ymddiried yn y broses. Fodd bynnag, Llywydd, rydym ni hefyd yn gwybod bod hyn yn fwyfwy anghyson â bywydau bob dydd pobl, ac mae hyn yn arbennig o wir am bobl ifanc.

Am y rheswm hwn, rwy'n bwriadu deddfu i gyflwyno cynlluniau arbrofol mewn etholiadau lleol ac isetholiadau a fyddai'n ymchwilio i'r dewisiadau o bleidleisio a chyfrif electronig, a phleidleisio mewn gwahanol fannau ar wahanol ddyddiau. Byddai angen i'r Comisiwn Etholiadol arfarnu unrhyw gynllun arbrofol cyn inni wneud unrhyw beth parhaol ac eang, ond mae hi'n hen bryd gwneud y broses bleidleisio yn fwy modern a mwy hyblyg, gan ystyried, wrth gwrs, yr angen i gadw unrhyw system newydd yn hollol ddiogel.

Rwy'n arbennig o falch o allu egluro'r diwygiadau etholiadol hyn heddiw oherwydd cyn bo hir byddwn yn dathlu canmlwyddiant y menywod cyntaf yn cael yr hawl i bleidleisio mewn etholiadau yn y Deyrnas Unedig a chyflwyno'r bleidlais i bob dyn. Mae'n briodol felly fy mod yn gallu datgan fy mwriad, gan ddefnyddio'r pwerau sydd ar fin cael eu trosglwyddo i'r Senedd hon o dan Ddeddf Cymru 2017 o fis Ebrill, i ymestyn yr etholfraint ymhellach mewn sawl ffordd.

Fy mwriad yw y bydd pobl 16 a 17 mlwydd oed yn gallu pleidleisio yn yr etholiadau lleol nesaf. Byddwn yn dilyn yr Alban yn hyn o beth, ac mae eu profiad nhw eisoes yn dangos inni gymaint y mae pobl ifanc yr oedran hwnnw yn croesawu'r cyfle ac yn ei ddefnyddio i ddatblygu'r broses ddemocrataidd ymhellach. Mewn ysgolion, bydd y thema dinasyddiaeth weithgar mewn addysg bersonol a chymdeithasol yn rhoi dealltwriaeth i bobl ifanc o wleidyddiaeth a'r hawl i bleidleisio.

Dylai pawb sydd wedi ymrwymo i fywyd yng Nghymru ac sy'n byw yma allu cymryd rhan yn ein democratiaeth gynhwysol. Rydym yn bwriadu caniatáu i unrhyw un o unrhyw genedligrwydd sy'n preswyllo yng Nghymru allu cofrestru a phleidleisio yn ein hetholiadau. Bydd hyn yn codi uwchlaw'r ddadl dros ddyfodol hawliau pleidleisio dinasyddion yr UE drwy ei gwneud hi'n glir y dylai pobl o bob gwlad a chenedl sydd wedi gwneud eu cartrefi yma allu cymryd rhan lawn yn ein democratiaeth.

Rwyf hefyd yn ystyried y posibiladau ar gyfer ymestyn hawliau carcharorion i bleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol os yw dyddiad arfaethedig eu rhyddhau cyn diwedd cyfnod y cyngor sy'n cael ei ethol. Byddent yn gallu pleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy os oes ganddyn nhw gysylltiad â chyfeiriad yng Nghymru, fel arfer eu cyfeiriad diwethaf. Mae angen i bobl sy'n cael eu hanfon i'r carchar deimlo'n rhan o'r gymuned ar ôl iddynt gael eu rhyddhau, a bydd yr hawl i bleidleisio yn ffurfio rhan o hyn.

Fy mwriad i yw y bydd llywodraeth leol yn symud i gyfnod o bum mlynedd, fel sy'n digwydd gyda'r Senedd hon a'r hyn a fwriedir ar gyfer Senedd y Deyrnas Unedig. Bydd cynghorau unigol yn gallu gwneud y dewis i newid i system y bleidlais sengl drosglwyddadwy. Er mwyn newid byddai angen yn gyntaf i ddwy ran o dair y cyngor dan sylw bleidleisio o blaid newid. Byddai'n rhaid defnyddio'r system newydd ar gyfer y ddwy gyfres nesaf o etholiadau cyffredin.

Rwyf hefyd yn bwriadu gwneud rhai newidiadau o ran ymgeisio mewn etholiadau lleol. Rwyf eisiau dilyn yr arfer sydd eisoes yn berthnasol i etholiadau seneddol a galluogi ymgeiswyr i gyhoeddi dim ond y ward lle maen nhw'n byw yn hytrach na'u cyfeiriad cartref ar ddogfennau etholiadol. Byddaf hefyd yn rhoi trefniadau ar waith i alluogi'r ymgeiswyr i gyhoeddi datganiadau polisi ar wefan cyngor.

Rwyf hefyd yn bwriadu ei gwneud hi'n haws i weithwyr cyngor sefyll etholiad ar gyfer eu cyngor eu hunain. Ar hyn o bryd, mae'n rhaid iddyn nhw ymddiswyddo cyn y gallan nhw hyd yn oed ymgeisio. Byddaf yn newid hyn fel nad oes angen iddyn nhw ymddiswyddo dim ond os cânt eu hethol. Fodd bynnag, byddaf hefyd yn annog awdurdodau lleol i gynnig seibiant gyrfu am o leiaf tymor cyntaf eu swyddogaeth. Rwyf hefyd yn ymwybodol bod llawer o'r Aelodau yn teimlo y dylai o leiaf rhai o weithwyr y cyngor allu bod yn gynghorwyr yn eu hawdurdod eu hunain, a byddaf yn gwranddo'n astud ar y trafodaethau ynglŷn â'r mater hwn yn ystod y gwaith craffu. Rwy'n credu bod a wnelo'r mater canolog hwn â thâl. Pe bai maint y taliadau a wneir i gynghorwyr am wneud eu gwaith yn fwy cydnaws â chyflogau, byddai cymryd seibiant o waith arall yn fwy realistig. Bwriadaf adolygu'r mater hwn, law yn llaw â'r panel annibynnol ar gydnabyddiaeth ariannol, dros y misoedd sydd i ddod.

Rwy'n credu'n gryf na ddylai Aelodau o'r Cynulliad hwn fod yn gynghorwyr hefyd ac rwy'n bwriadu deddfu fel eu bod yn cael eu gwahardd rhag bod yn aelod cyngor. Rwyf hefyd yn bwriadu ei gwneud hi'n ofynnol i ymgeiswyr ddatgan aelodaeth o unrhyw blaid wleidyddol gofrestredig os nad ydyn nhw'n sefyll o dan faner plaid. Gallai peidio â gwneud hynny arwain at gael eu gwahardd.

Yn olaf, rwy'n bwriadu diwygio'r ddeddfwriaeth fel mai Prif Weithredwr y Cyngor fydd y swyddog canlyniadau. Ni fydd y swyddog canlyniadau, fel arfer y swyddog cyngor sy'n cael y cyflog mwyaf, yn gallu hawlio ffi bersonol mwyach oddi ar eu cyngor eu hunain nac am gynnal etholiadau seneddol yng Nghymru. Nid yw'n dderbyniol i'r cyhoedd, yn enwedig ar adeg pan fo gweithwyr cyngor cyffredin yn wynebu'r fath gyfyngiadau.